

Adroddiad Arolygu Gwasanaeth Iechyd Meddwl Annibynnol (Dirybudd)

Ysbyty Hillview

Dyddiad yr arolygiad: 15, 16 ac 17 Awst 2022

Dyddiad cyhoeddi: 12 Ionawr 2023



Gellir darparu'r cyhoeddiad hwn a gwybodaeth arall gan AGIC mewn fformatau neu ieithoedd amgen ar gais. Bydd oedi byr wrth i ieithoedd a fformatau eraill gael eu cynhyrchu pan ofynnir amdanynt i ddiwallu anghenion unigol. Cysylltwch â ni am gymorth.

Bydd copiâu o'r holl adroddiadau, pan gânt eu cyhoeddi, ar gael ar ein [gwefan](#) neu drwy gysylltu â ni:

Yn ysgrifenedig:

Rheolwr Cyfathrebu
Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru
Llywodraeth Cymru
Parc Busnes Rhyd-y-car
Merthyr Tudful
CF48 1UZ

Neu

Ffôn: 0300 062 8163
E-bost: AGIC@llyw.cymru
Gwefan: www.agic.org.uk

ISBN Digidol 978-1-80535-250-1

© Hawlfraint y Goron 2022

Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) yw arolygiaeth a rheoleiddiwr annibynnol gofal iechyd yng Nghymru

Ein diben

Gwirio bod gwasanaethau gofal iechyd yn cael eu darparu mewn ffordd sy'n mwyafu iechyd a llesiant pobl.

Ein gwerthoedd

Mae pobl wrth wraidd yr hyn yr ydym yn ei wneud. Rydym yn:


- Annibynnol - rydym yn ddiuedd, yn penderfynu pa waith rydym yn ei wneud a lle rydym yn ei wneud
- Gwrthrychol - rydym yn rhesymol ac yn deg ac yn gweithredu ar sail tystiolaeth
- Pendant - rydym yn gwneud dyfarniadau clir ac yn cymryd camau i wella safonau gwael ac amlygu'r arferion da rydym yn dod ar eu traws
- Cynhwysol - rydym yn gwerthfawrogi ac yn annog cydraddoldeb ac amrywiaeth drwy ein gwaith
- Cymesur - rydym yn ystwyth ac yn gwneud ein gwaith lle mae o'r pwys mwyaf

Ein nod

Bod yn llais dibynadwy sy'n ysgogi gwelliant mewn gofal iechyd ac sy'n dylanwadu arno

Ein blaenoriaethau

- Byddwn yn canolbwyntio ar ansawdd y gofal iechyd a ddarperir i bobl a chymunedau wrth iddynt gyrchu gwasanaethau, eu defnyddio a symud rhyngddynt
- Byddwn yn addasu ein dull gweithredu i sicrhau ein bod yn ymatebol i risgiau i ddiogelwch cleifion sy'n dod i'r amlwg
- Byddwn yn cydweithio er mwyn ysgogi'r gwaith o wella systemau a gwasanaethau ym maes gofal iechyd
- Byddwn yn cefnogi ac yn datblygu ein gweithlu i'w galluogi nhw, a'r sefydliad, i gyflawni ein blaenoriaethau



Cynnwys

1. Yr hyn a wnaethom
2. Crynodeb o'r arolygiad
3. Yr hyn a nodwyd gennym
 - Ansawdd Profiad y Claf
 - Darparu Gofal Diogel ac Effeithiol
 - Ansawdd Rheolaeth ac Arweinyddiaeth
4. Y camau nesaf

Atodiad A - Crynodeb o bryderon a ddatryswyd yn ystod yr arolygiad

Atodiad B - Cynllun gwella ar unwaith

Atodiad C - Cynllun gwella

1. Yr hyn a wnaethom

Ceir manylion llawn am y ffordd rydym yn arolygu'r GIG ac yn rheoleiddio darparwyr gofal iechyd annibynnol yng Nghymru ar ein [gwefan](#).

Cwblhaodd Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) arolygiad iechyd meddwl annibynnol dirybudd o Ysbyty Hillview ar 15, 16 ac 17 Awst 2022.

Mae 21 o welyau yn yr ysbyty ac mae'n darparu Gwasanaethau Iechyd Meddwl plant a'r glasoed i ferched rhwng 13 (tair ar ddeg) a 18 (deunaw) oed sydd wedi cael diagnosis o anhwylder meddyliol ac sy'n cael eu cadw o dan Ddeddf Iechyd Meddwl 1983. Ar adeg yr arolygiad, roedd yr ysbyty yn cael ei gefnogi gan strwythurau rheoli a strwythurau trefniadol Regis Healthcare. Adolygwyd y wardiau ysbyty canlynol yn ystod yr arolygiad hwn:

- Tŷ Seren
- Ward Ebbw.

Roedd ein tîm ar gyfer yr arolygiad yn cynnwys pedwar Adolygydd AGIC, tri adolygydd cymheiriaid clinigol (yr oedd un ohonynt yn adolygydd enwebedig o dan y Ddeddf Iechyd Meddwl) ac un adolygydd profiad cleifion. Arweiniwyd yr arolygiad gan un o Uwch-arolygwyr Gofal Iechyd AGIC.

Nodwch fod canfyddiadau'r arolygiad yn ymwneud â'r adeg y cynhaliwyd yr arolygiad.

Mae'r adroddiad (llawn) hwn wedi'i gynllunio ar gyfer y lleoliad, ac mae'n disgrifio'r holl ganfyddiadau sy'n ymwneud â darparu gofal diogel a dibynadwy o ansawdd uchel sy'n canolbwyntio ar gleifion unigol.

Mae fersiwn gryno o'r adroddiad, sydd wedi'i chynllunio ar gyfer aelodau'r cyhoedd, ar gael ar ein [gwefan](#).

2. Crynodeb o'r arolygiad

Ansawdd Profiad y Claf

Crynodeb cyffredinol:

Roedd yr adborth o'r holiaduron i aelodau o'r teuluoedd a gofalwyr a gyhoeddwyd gan AGIC yn gymysg, a chafwyd sylwadau a phrofiadau cadarnhaol a negyddol. Roedd y bobl ifanc y gwnaethom siarad â nhw yn ystod yr arolygiad yn fwy cadarnhaol am y gofal roeddent yn ei gael yn yr ysbyty ac am y rhyngweithio rhyngddynt â'r staff. Gallai'r bobl ifanc ymgysylltu â'r staff a rhoi adborth iddynt am y gofal a ddarparwyd yn yr ysbyty mewn sawl ffordd. Roedd eiriolwr iechyd meddwl ar gael i'r bobl ifanc er mwyn rhoi cymorth a gwybodaeth iddynt.

Rydym yn argymhell y gall y gwasanaeth wella'r canlynol

- Dywedwyd wrthym fod gweithgareddau therapiwtig yn aml yn cael eu canslo ar fyr rybudd. Rhaid i'r gwasanaeth sicrhau bod gweithgareddau yn cael eu cynnal fel y bwriadwyd
- Gellid gwella'r cyfathrebu gan yr ysbyty ag aelodau o'r teuluoedd a gofalwyr mewn perthynas â gofal a llesiant y bobl ifanc
- Dylid cynnal adolygiad o'r trefniadau ymweld sydd ar waith yn yr ysbyty er mwyn sicrhau eu bod yn diwallu anghenion y bobl ifanc ac aelodau o'u teuluoedd a'u gofalwyr yn briodol.

Dyma beth roedd y gwasanaeth yn ei wneud yn dda:

- Nodwyd gennym fod gwaith wedi'i gwblhau ers ein harolygiad blaenorol er mwyn gwneud i'r ddwy ward edrych yn fwy apelgar a dymunol

Gofal Diogel ac Effeithiol

Crynodeb cyffredinol:

Cawsom sicrwydd fod prosesau ar waith i reoli ac adolygu risgiau er mwyn helpu i gynnal iechyd a diogelwch y bobl ifanc, y staff ac ymwelwyr yn yr ysbyty. Gwelsom fod gwelliannau wedi cael eu gwneud mewn sawl maes ers ein harolygiad blaenorol er mwyn helpu i sicrhau bod yr ysbyty yn darparu gofal diogel ac effeithiol. Er enghraifft, roedd ansawdd y cynlluniau gofal a thriniaeth bellach yn cydymffurfio â'r canllawiau arferion gorau. Fodd bynnag, fel y nodwyd yn ystod ein hymweliad blaenorol, gwnaethom nodi materion o ran gweithdrefnau atal a rheoli heintiau.

Rydym yn argymhell y gall y gwasanaeth wella'r canlynol

- Gallai rhai o'r aelodau o staff sy'n ymgymryd ag arsylwadau wneud mwy o ymdrech i ryngweithio â'r bobl ifanc mewn ffordd ystyrlon

- Rhaid dogfennu'r holl wiriadau wythnosol a gynhelir ar y cyfarpar dadebru a'r cyfarpar brys
- Sicrhau bod pob aelod o'r staff yn ymwybodol o'r gweithdrefnau uwchgyfeirio yn unol â chanllawiau'r Sgoriau Rhybudd Cynnar Cenedlaethol, a'u bod yn dilyn y gweithdrefnau hynny, er mwyn helpu i sicrhau iechyd a diogelwch y bobl ifanc
- Rhaid i bob cynllun gofal a thriniaeth y nodir sydd ei angen ar gyfer y bobl ifanc pan gânt eu derbyn i'r ysbyty gael ei lunio a'i roi ar waith.

Dyma beth roedd y gwasanaeth yn ei wneud yn dda:

- Roedd ystafelloedd y clinig yn drefnus, yn lân ac yn daclus ac roedd gweithdrefnau bellach ar waith i reoli meddyginiaethau yn ddiogel
- Roedd y system electronig sydd ar waith ar gyfer cadw cofnodion y cleifion yn gynhwysfawr, yn drefnus ac yn hawdd i'w defnyddio.

Ansawdd Rheolaeth ac Arweinyddiaeth

Crynodeb cyffredinol:

Argymhellodd pob un o'r aelodau o staff a ymatebodd i holiadur AGIC yr ysbyty fel lle i weithio, gan gytuno y byddent yn fodlon ar y safon o ofal a ddarperir i'w ffrindiau neu aelodau o'u teulu. Cododd rhai aelodau o'r staff faterion â ni ac rydym wedi gofyn i'r gwasanaeth eu hystyried; er enghraifft, cafwyd sylwadau yn gofyn am well cyfathrebu gan yr uwch-reolwyr â'r staff.

Yn dilyn ein harolygiad blaenorol ym mis Tachwedd 2021, dynodwyd Ysbyty Hillview yn Wasanaeth sy'n Peri Pryder yn unol â phroses Uwchgyfeirio a Gorfodi AGIC ar gyfer gwasanaethau gofal iechyd annibynnol. Roedd hyn oherwydd nifer y materion a nodwyd gennym a'u difrifoldeb. Gwelsom fod gwelliannau wedi'u gwneud o ran y trefniadau llywodraethu ac archwilio a roddwyd ar waith ers ein harolygiad blaenorol sydd wedi helpu i sicrhau bod gan y rheolwyr well trosolwg o faterion clinigol a gweithredol. Fodd bynnag, nodwyd gennym fod materion difrifol o hyd mewn perthynas ag ansawdd gwael y broses o roi gwybod am ddigwyddiadau. O ganlyniad, mae'r lleoliad yn parhau i fod yn Wasanaeth sy'n Peri Pryder a byddwn yn parhau i fonitro'r gwasanaeth er mwyn sicrhau yr ymdrinnir â'r holl welliannau gofynnol.

3. Yr hyn a nodwyd gennym

Ansawdd Profiad y Claf

Gwahoddwyd aelodau o deuluoedd a gofalwyr y bobl ifanc yn yr ysbyty i gwblhau holiaduron AGIC er mwyn cael gwybod eu barn am y gwasanaeth a ddarperir yn yr ysbyty. Derbyniwyd cyfanswm o 12 o holiaduron wedi'u cwblhau. Roedd y canlyniadau yn adlewyrchu gwahaniaeth barn ymhlith yr ymatebwyr am y gofal a ddarperir yn yr ysbyty. Er enghraifft, er bod bron i hanner yr ymatebwyr o'r farn bod y lleoliad naill ai'n dda neu'n dda iawn, roedd dros hanner yr ymatebwyr o'r farn bod y lleoliad naill ai'n wael neu'n wael iawn. Caiff rhai o ganlyniadau'r holiadur a sylwadau gan aelodau o'r teuluoedd a gofalwyr eu nodi drwy gydol gweddill yr adroddiad.

Hybu, diogelu a gwella iechyd

Gwnaethom edrych ar sampl o gofnodion cleifion yn ystod yr arolygiad a gwelsom dystiolaeth bod anghenion iechyd corfforol y bobl ifanc wedi cael eu hystyried yn ogystal â'u gofal iechyd meddwl. Roedd pob person ifanc yn cael asesiad iechyd corfforol wrth gael ei dderbyn i'r ysbyty. Fodd bynnag, nodwyd gennym fod yr asesiadau yn ymddangos yn gyffredinol ac nad oeddent wedi'u teilwra at yr unigolyn. Er enghraifft, roedd yn ymddangos fel petai rhai adrannau wedi cael eu copio a'u gludo o set o gofnodion un claf i set o gofnodion claf arall. Rhaid i asesiadau iechyd corfforol ganolbwyntio ar yr unigolyn er mwyn helpu i atal iechyd a llesiant yr unigolyn hwnnw rhag gwaethygu ac er mwyn helpu i ddiwallu ei anghenion gofal iechyd meddwl. Ar ôl derbyn unigolion i'r ysbyty, roedd cynlluniau gofal iechyd corfforol yn dogfennu unrhyw ymyriadau hybu ac atal iechyd parhaus a oedd yn ofynnol, fel cymorth dietetig a mynediad at feddygon teulu.

Roedd amrywiaeth o gyfleusterau therapi ar gael i'r bobl ifanc ar y wardiau er mwyn cefnogi a chynnal eu hiechyd a'u llesiant, gan gynnwys campfa, ystafelloedd TG a chegin therapi galwedigaethol. Roedd gweithgareddau therapiwtig ar gael drwy gydol yr wythnos ac roedd ardaloedd awyr agored ar gael i'r ddwy ward eu defnyddio. Fodd bynnag, ni welsom unrhyw rai o'r bobl ifanc yn defnyddio'r cyfleusterau therapi na'r ardaloedd awyr agored yn ystod cyfnod ein harolygiad. At hynny, dywedodd rhai o'r bobl ifanc wrthym fod gweithgareddau yn cael eu canslo ar fyr rybudd; er enghraifft, nodwyd gennym na chafodd y dosbarth dawnio ei gynnal fel y bwriadwyd. Rhaid i'r gwasanaeth sicrhau y caiff gweithgareddau therapiwtig eu hwyluso er mwyn rhoi ffocws cadarnhaol i'r bobl ifanc a'u helpu i wella'n gyflymach.

Yn ystod arolygiad diwethaf AGIC ym mis Tachwedd 2011, gwnaethom argymhell fod angen gwella rhai agweddau ar amgylchedd yr ysbyty. Yn ystod yr arolygiad hwn, gwelsom fod gwaith gwella wedi cael ei gwblhau a bod y wardiau yn edrych yn fwy apelgar a dymunol. Er enghraifft, roedd murluniau wedi cael eu paentio ar waliau pob ward. Fodd bynnag, roedd yr ystafell dawel ar ward Tŷ Seren yn wag ac yn llachar ac felly nid oedd mewn gwirionedd yn cynnig amgylchedd hamddenol na digyffro. Yn ystod yr arolygiad, roedd y sofffa hefyd wedi cael ei symud o'r ystafell dawel ac roedd yn cael ei ddefnyddio fel cadair ychwanegol yn y lolfa, a oedd yn golygu nad oedd unrhyw seddau ar gael yn yr ystafell dawel pe byddai unrhyw rai o'r bobl ifanc am ei defnyddio.

Urddas a pharch

Dywedodd tua hanner yr ymatebwyr i'r holiaduron i aelodau o'r teuluoedd a gofalwyr nad oedd y staff yn gwrtais i'r bobl ifanc ac nad oedd y staff yn garedig nac yn sensitif wrth ddarparu gofal a thriniaeth. Yn ôl ein harsylwadau ni, roedd y rhyngweithio rhwng y staff a'r bobl ifanc yn gyfeillgar ac yn llawn parch. Roedd y bobl ifanc y gwnaethom siarad â nhw yn ystod yr arolygiad hefyd yn gadarnhaol am y gofal roeddent yn ei gael ac am y rhyngweithio rhyngddynt â'r staff. Gwnaethant ddweud wrthym eu bod yn teimlo eu bod yn gallu mynegi eu hunain. Fodd bynnag, dylai'r gwasanaeth ystyried canlyniadau'r holiadur a sicrhau bod y staff yn garedig ac yn sensitif i'r bobl ifanc wrth ddarparu gofal a thriniaeth.

Roedd y bobl ifanc yn gallu storio eiddo personol a phersonoli eu hystafelloedd gwely â lluniau a phosteri lle y bo'n briodol. Roedd p'un a oeddent yn gallu cloi eu hystafell wely a defnyddio manau preifat yn dibynnu ar yr asesiadau risg unigol cyfredol o ran y posibilrwydd y byddent yn hunan-niweidio. Roedd lefelau arsylwi uwch ar waith gan y staff ar gyfer rhai o'r bobl ifanc yn yr ysbyty, ac o ganlyniad, nid oedd modd ymgymryd â gweithgareddau gofal personol yn breifat. Gwelsom fod trefniadau ar waith lle bynnag y bo'n bosibl i aelodau benywaidd o'r staff arsylwi ar y bobl ifanc wrth iddynt ymgymryd â gweithgareddau gofal personol.

Gwybodaeth i gleifion a chydysniad cleifion

Roedd datganiad o ddiben cyfredol ar gael a oedd yn disgrifio nodau ac amcanion y gwasanaeth ac a oedd yn disgrifio'r hyn y gall y bobl ifanc ei ddisgwyl o'u cyfnod yn yr ysbyty. Roedd tystysgrifau cofrestru AGIC i'w gweld yn nerbynfa'r adeilad.

Gwelsom fod gwybodaeth berthnasol i'r bobl ifanc i'w gweld ym mhob rhan o'r wardiau. Roedd hyn yn cynnwys manylion am sut y gallai'r bobl ifanc ac aelodau o'u teuluoedd neu eu gofalwyr gysylltu â gwasanaethau eiriolaeth a defnyddio'r gwasanaethau hynny. Roedd posteri yn arddangos pum ffordd at les y Sefydliad Economeg Newydd. Roedd gwybodaeth am rôl AGIC hefyd ar gael ac yn hysbysu'r bobl ifanc am sut i gysylltu â'r sefydliad pe byddent am wneud hynny.

Gwelsom fod yr holl wybodaeth sensitif am bob person ifanc a oedd yn cael gofal yn yr ysbyty yn cael ei chadw mewn ardaloedd diogel priodol ac allan o'r golwg er mwyn helpu i sicrhau cyfrinachedd.

Cyfathrebu'n effeithiol

Roedd cyfarfodydd dyddiol yn cael eu cynnal ar y ward bob bore rhwng y staff a'r bobl ifanc i drafod gweithgareddau arfaethedig a gwybodaeth berthnasol arall, fel apwyntiadau meddygol. Roedd cyfarfodydd wythnosol hefyd yn cael eu cynnal er mwyn rhoi'r cyfle i'r bobl ifanc godi unrhyw faterion a allai fod ganddynt.

Dywedodd ychydig dros hanner yr ymatebwyr i'r holiaduron i aelodau o'r teuluoedd a gofalwyr nad oedd y staff yn gwrando ar y bobl ifanc ac nad oeddent yn gwrando ar aelodau o deuluoedd na gofalwyr. Pan ofynnwyd iddynt sut y gallai'r lleoliad wella'r gofal a'r gwasanaeth a ddarperir ganddo, roedd rhai o'r sylwadau yn cynnwys y canlynol:

“Diweddariad wythnosol dros y ffôn i rieni/gofalwyr. Roedd hyn yn digwydd i ddechrau, ond newidiodd yr aelod o staff ei rôl ac nid oes neb wedi parhau â'r drefn.”

“Yn ein barn ni, mae ein merch wedi cael gwell gofal yma nag a gafodd mewn unedau eraill. Roedd cael pwynt cyswllt penodol o gymorth mawr ar y dechrau. Roeddem yn teimlo bod amrywiol lefelau o'r staff yn gwrando arnom.”

Rhaid i'r gwasanaeth sicrhau y caiff y trefniadau ar gyfer cyfathrebu ag aelodau o deuluoedd a gofalwyr y bobl ifanc yn yr ysbyty (lle bo cyswllt yn briodol) eu gwella.

Roedd cyfarfod trosglwyddo yn cael ei gynnal bob bore yn ystod yr wythnos er mwyn i'r staff nyrsio roi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r tîm amlddisgyblaethol am unrhyw bryderon, materion neu ddigwyddiadau a gododd y diwrnod blaenorol. Gwnaethom fynychu cyfarfod trosglwyddo yn ystod yr arolygiad a gwelsom fod yr uwch-staff nyrsio yn deall yr unigolion roeddent yn gofalu amdanynt yn dda, a bod y trafodaethau yn canolbwyntio ar yr hyn a fyddai orau i'r person ifanc.

Cynllunio a darparu gofal

Yn ystod yr arolygiad, gwnaethom edrych ar gofnodion cleifion pedwar person ifanc. Roedd yn gadarnhaol nodi bod ansawdd y cynlluniau gofal a thriniaeth wedi gwella ers ein harolygiad diwethaf yn Hillview. Roedd y cynlluniau gofal a thriniaeth yn gyfredol, yn hawdd eu deall ac yn cael eu cynnal yn dda. Nodir ein prif ganfyddiadau ar y cynlluniau gofal a thriniaeth yn adran Monitro Mesur Iechyd Meddwl (Cymru) 2010: Cynllunio a darparu gofal yr adroddiad hwn.

Dyweddod ychydig dros hanner yr ymatebwyr i'r holiaduron i aelodau o'r teuluoedd a gofalwyr nad oeddent wedi cael eu cynnwys cymaint ag y byddent wedi hoffi cael eu cynnwys wrth wneud penderfyniadau am ofal y person ifanc. Yn y cofnodion cleifion y gwnaethom edrych arnynt, gwelsom dystiolaeth fod aelodau o'r teuluoedd a gofalwyr wedi cael eu cynnwys wrth gynllunio gofal a thriniaeth. Er enghraifft, roedd aelodau o'r teuluoedd wedi cael eu gwahodd i gyfarfodydd y tîm amlddisgyblaethol i drafod gofal y person ifanc roeddent yn gofalu amdano. Fodd bynnag, mae'n bosibl yr hoffai'r gwasanaeth ystyried ffyrdd pellach o gynnwys aelodau o'r teuluoedd a gofalwyr wrth wneud penderfyniadau am ofal y person ifanc lle y bo'n briodol o ystyried canlyniadau'r holiadur.

Roedd dystiolaeth hefyd bod safbwyntiau a dyheadau'r bobl ifanc yn cael eu cofnodi yn eu cynlluniau gofal a thriniaeth unigol. Gwnaeth un ymatebydd y sylw canlynol yn yr holiadur i aelodau o'r teuluoedd a gofalwyr:

“Yn gyffredinol, mae'r lleoliad wedi bod yn ardderchog ar gyfer ein merch, mae ganddi'r tîm amlddisgyblaethol gorau rydym wedi'i brofi yn ystod y ddwy flynedd ers iddi ddechrau cael ei derbyn i'r ysbyty.”

Cydraddoldeb, amrywiaeth a hawliau dynol

Yn ystod yr arolygiad, gwnaethom edrych ar gofnodion cleifion pedwar person ifanc a oedd wedi cael eu cadw yn yr ysbyty o dan y Ddeddf Iechyd Meddwl (y Ddeddf). Roedd y ddogfennaeth gyfreithiol a welsom yn cydymffurfio â'r ddeddfwriaeth berthnasol ac yn dilyn canllawiau Cod Ymarfer Cymru Deddf Iechyd Meddwl 2016 (y Cod). Nodir ein prif ganfyddiadau am ansawdd y ddogfennaeth sy'n gysylltiedig â'r Ddeddf Iechyd Meddwl yn adran Monitro'r Ddeddf Iechyd Meddwl yr adroddiad hwn.

Roedd polisiâu ar waith gan yr ysbyty er mwyn helpu i sicrhau bod cydraddoldeb ac amrywiaeth yn cael eu parchu. Nodwyd gennym fod rhai o'r bobl ifanc yn yr ysbyty wedi hysbysu'r staff fod eu rhywedd bellach yn wahanol i'r rhyw a neilltuwyd iddynt adeg eu geni, a gwelsom aelodau o'r staff yn defnyddio'r rhagenwau a ffefrir ganddynt.

Yn ystod yr arolygiad, nodwyd gennym nad oedd y lifft ar ward Tŷ Seren yn gweithio. Nid oedd yr un lifft yn gweithio ychwaith yn ystod ein harolygiad blaenorol. Gwnaethom siarad â'r staff a chawsom sicrwydd fod y lifft wedi cael ei drwsio ers ein hymweliad diwethaf ond ei fod wedi torri eto'n ddiweddar. Er gwaethaf y ffaith ein bod wedi trafod y mater hwn â'r staff, nid oedd y lifft yn gweithio o hyd ar ddiwedd yr arolygiad. Mae'n bwysig bod y lifft yn cael ei drwsio a'i fod yn hygyrch er mwyn sicrhau y gall y bobl ifanc neu ymwelwyr ddefnyddio'r lifft os bydd angen.

Dywedodd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr i'r holiadur i aelodau o'r teuluoedd a gofalwyr eu bod yn teimlo bod croeso iddynt ymweld â'r lleoliad. Fodd bynnag, dywedodd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr hefyd nad oeddent yn gallu ymweld â'r lleoliad mor aml ag y byddent yn hoffi ymweld. Adleisiwyd hyn yn rhai o'r sylwadau a wnaed gan gynnwys y canlynol:

“Mae'r ysbyty yn cyfyngu ymweliadau i ddwywaith yr wythnos - hoffwn ymweld bob dydd.”

“Caniateir dau ymweliad 2 awr o hyd bob wythnos. Rwy'n byw yn Lloegr a phe byddai'r ysbyty yn agosach, byddwn yn hoffi ymweld deirgwaith yr wythnos, nid yw dwywaith yn ddigon rywsut.”

“Annog mwy o ymweliadau gan aelodau'r teulu a'u gwneud yn llai brawychus. Roedd platiau brwnt wedi'u gadael ar yr ochr yn yr ystafell deuluol yn ystod dau ymweliad yn olynol.”

Dylai'r gwasanaeth fyfyrion ar yr adborth hwn ac ystyried pa mor addas yw'r trefniadau ymweld sydd ar waith ar hyn o bryd yn yr ysbyty.

Ymgysylltu â dinasyddion a'u hadborth

Cyflwynir arolygon rheolaidd i'r bobl ifanc ac aelodau o'u teuluoedd a'u gofalwyr er mwyn deall eu safbwyntiau a helpu i nodi unrhyw welliannau. Gwnaethom edrych ar y set ddiweddaraf o ganlyniadau arolygon a gwelsom rai sgorau boddhad isel gan y bobl ifanc mewn perthynas â chysur ac amgylchedd yr ysgol, ac o ran pa mor dda roedd y staff yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r bobl ifanc am newidiadau i'w gofal. Fodd bynnag, roedd hefyd yn glir bod y staff wedi bod yn trafod pa gamau y gallant eu cymryd i ymdrin â'r materion a'u bod yn ymrwymedig i wneud gwelliannau i geisio gwella sgorau boddhad y bobl ifanc yn y dyfodol. Roedd hefyd yn gadarnhaol nodi bod y meysydd lle cafwyd sgorau boddhad uchel yn ymwneud â pha mor gyfeillgar oedd y staff, cael cymorth i gyflawni nodau gwella ac ymwybyddiaeth y staff o anghenion unigolion.

Darparu Gofal Diogel ac Effeithiol

Gofal Diogel

Rheoli risg ac iechyd a diogelwch

Ar y cyfan, cawsom sicrwydd fod prosesau ar waith yn Hillview i reoli ac adolygu risgiau er mwyn helpu i gynnal iechyd a diogelwch y bobl ifanc, y staff ac ymwelwyr yn yr ysbyty. Roedd maes parcio'r ysbyty wedi'i ddiogelu gan giât wedi'i chloi ac roedd prif fynedfa'r adeilad wedi'i chloi er mwyn atal mynediad anawdurdodedig. Roeddent wedi'u cloi drwy gydol yr arolygiad.

Gwelsom fod amrywiaeth o bolisiau iechyd a diogelwch cyfredol ar waith. Nodwyd gennym fod y gwasanaeth wedi rhoi trefniadau ar waith i gynnal Ymweliadau Ansawdd wythnos mewn ymateb i'n harolygiad blaenorol yn yr ysbyty. Roedd yr ymweliadau hyn yn cael eu cynnal gan uwch-aelodau o'r staff ac roeddent yn helpu i nodi unrhyw welliannau yr oedd eu hangen o ran amgylchedd y ddwy ward. Roedd archwiliadau iechyd a diogelwch rheolaidd yn cael eu cwblhau a'u cyflwyno i'r tîm corfforaethol yn Regis Healthcare er mwyn monitro cydymffurfiaeth. Roedd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr i'r holiaduron i aelodau o'r teuluoedd a gofalwyr yn cytuno bod yr amgylchedd yn lân ac yn daclus, ei bod hi'n hawdd iddynt ddod o hyd i'w ffordd o amgylch y wardiau a'u bod yn teimlo'n ddiogel wrth ymweld.

Roedd dodrefn, gosodiadau a ffitiadau'r ysbyty yn ymddangos yn briodol i'r bobl ifanc. Roedd asesiadau risg cynhwysfawr a chyfredol ar gael mewn perthynas â phwyntiau clymu. Gwelsom fod camau wedi'u cymryd mewn ymateb i archwiliadau blaenorol er mwyn rheoli unrhyw risgiau a nodwyd. Roedd nifer o declynnau torri pwyntiau clymu wedi'u lleoli ym mhob rhan o'r ysbyty i'w defnyddio pe bai argyfwng hunan-niweidio.

Roedd y staff yn gwisgo larymau personol y gallent eu defnyddio i alw am gymorth pe byddai ei angen. Roedd pwyntiau galw am nyrsys hefyd wedi'u lleoli o amgylch y wardiau ac ym mhob ystafell wely fel y gallai'r bobl ifanc alw am gymorth pe byddai ei angen. Rhoddwyd larymau personol i ni yn ystod yr arolygiad yn unol â pholisi larymau personol yr ysbyty.

Atal a rheoli heintiau a dihalogi

Yn ystod ein harolygiad blaenorol, nodwyd gennym fod angen gwneud gwelliannau er mwyn sicrhau bod y gweithdrefnau atal a rheoli heintiau yn diogelu'r bobl ifanc, y staff ac ymwelwyr â'r ysbyty mewn ffordd addas. Gwelsom fod gwelliannau wedi'u gwneud ers ein hymweliad diwethaf. Roedd yr ysbyty yn lân ac yn daclus ac nid oedd y biniau yn yr ystafelloedd ymolchi yn orlawn. Roedd archwiliadau perthnasol fel archwiliadau atal a rheoli heintiau ac archwiliadau hylendid dwylo

yn cael eu cynnal ac mae'r Ymweliadau Ansawdd wedi bod yn gam cadarnhaol o ran monitro cydymffurfiaeth.

Fodd bynnag, fel yn ystod ein harolygiad diwethaf, gwelsom unwaith eto dystiolaeth yn ystod ein hymweliad mewn sawl rhan o'r ysbyty o staeniau a oedd yn ymddangos fel gwaed wedi sychu yn dilyn digwyddiadau hunan-niweidio. Dylid nodi y cafodd yr ardaloedd hyn eu glanhau ar ôl i'n harolygwyr godi'r mater hwn gyda'r staff. Rydym yn cydnabod mai rheoli digwyddiadau er mwyn diogelu'r person ifanc yw'r flaenoriaeth. Fodd bynnag, rhaid rhoi systemau ar waith i sicrhau y caiff unrhyw staeniau gwaed eu glanhau'n gyflymach ar ôl digwyddiad er mwyn diogelu'r bobl ifanc a'r staff yn yr ysbyty rhag y risg o groes-heintio ac er mwyn hyrwyddo amgylchedd diogel.

Roedd amserlenni glanhau yn dogfennu'r gwaith glanhau a oedd yn mynd rhagddo yn yr ysbyty. Fodd bynnag, nodwyd gennym nad oedd yr amserlenni bob amser yn cael eu cwblhau fel yr oedd yn ofynnol bob dydd.

Yn ôl pob tebyg, roedd gweithdrefnau priodol ar waith er mwyn helpu i reoli'r risg o drosglwyddo COVID-19 ym mhob rhan o'r ysbyty. Dywedwyd wrthym fod y bobl ifanc yn cael prawf COVID-19 pan fyddent yn cyrraedd yr ysbyty a'u bod yn hunanynysu ar ward ar wahân tan iddynt gael canlyniad prawf negatiff. Dylai'r gwasanaeth sicrhau nad yw'r cyfnod ynysu hwn yn cael effaith negyddol ar y bobl ifanc. Roedd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr i'r holiaduron i aelodau o'r teuluoedd a gofawyr yn cytuno, yn eu barn nhw, fod mesurau ar gyfer rheoli haint COVID-19 yn cael eu dilyn yn yr ysbyty.

Gwelsom fod y gyfradd gydymffurfio ymhlith y staff ar gyfer hyfforddiant atal a rheoli heintiau yn gymharol uchel, sef 82 y cant. Dywedwyd wrthym fod disgwyl i bob aelod o'r staff gwblhau unrhyw hyfforddiant nad oeddent wedi'i gwblhau eto erbyn diwedd mis Medi 2022.

Maeth

Roedd deietegydd ar gael yn yr ysbyty a oedd yn gyfrifol am sicrhau bod anghenion maeth a hydradu'r bobl ifanc yn cael eu diwallu. Nodwyd gennym fod prosesau addas ar waith i ddiwallu anghenion unigol. Roedd gan bob person ifanc gynllun gofal maeth ac roedd y cynlluniau hyn yn cael eu hadolygu'n rheolaidd. Roedd siartiau bwyd a hylif 24 awr yn cael eu cwblhau a'u monitro gan y deietegydd. Roedd unrhyw broblemau yn cael eu huwchgyfeirio gan y deietegydd i'r tîm amlddisgyblaethol pe byddai angen.

Roedd y bobl ifanc yn cael amrywiaeth o brydau poeth ac oer drwy gydol y dydd gan yr ysbyty. Roedd y fwydlen yn cynnwys dewisiadau iach yn ogystal â phrydau

traddodiadol i blant. Dywedwyd wrthym fod staff y gegin yn croesawu adborth ar y bwydlenni a'i fod yn cael ei drafod yn ystod y cyfarfodydd wythnosol â'r bobl ifanc.

Yn ystod yr arolygiad blaenorol, gwnaethom dynnu sylw at yr angen i ddechrau labelu bwyd a diodydd unigol. Nodwyd gennym fod ymdrechion wedi cael eu gwneud yn hyn o beth. Er enghraifft, roedd label ar bob grawnfwyd yn nodi pryd y cafodd ei agor. Fodd bynnag, ni welsom ddyddiadau yn nodi erbyn pryd y dylid defnyddio'r bwydydd. Gwelsom ddiodydd a bwyd unigol yn oergelloedd y gegin ar y ddwy ward nad oedd unrhyw labeli arnynt i nodi pa berson ifanc roeddent yn perthyn iddynt. Rhaid i'r gwasanaeth sicrhau bod eitemau bwyd a diod yn cynnwys manylion pryd y caiff cynnyrch ei agor, erbyn pryd y dylid ei ddefnyddio ac enw'r person ifanc.

Roedd cyfran fawr o'r bobl ifanc yn cael y maetholion a'r hylifau roedd eu hangen arnynt drwy diwb nasogastrig. Roedd llawer o'r bobl ifanc hyn eisoes yn defnyddio tiwb nasogastrig pan gawsant eu derbyn i'r ysbyty. Nodwyd gennym fod rhai o'r bobl ifanc a oedd yn cael eu bwydo drwy diwb nasogastrig yn pwysu pwysau priodol ar gyfer eu taldra a'u hoedran, neu eu bod yn llwyddo i fwyta ac yfed rhywfaint drwy'r geg. Yn yr achosion hyn, nid oedd y cyfiawnhad dros barhau i fwydo drwy diwb nasogastrig bob amser yn amlwg yn y cynlluniau gofal a thriniaeth. Nid oedd yn glir ychwaith mewn rhai achosion a ddylai'r person ifanc gadw ei diwb nasogastrig yn ei le neu a ddylid ei dynnu ar ôl bwydo. Rhaid cofnodi'r risgiau a'r penderfyniadau yn hyn o beth yn gywir yng nghynlluniau gofal a thriniaeth pob person ifanc y mae angen tiwb nasogastrig arno.

Rheoli meddyginiaethau

Yn ystod yr arolygiad blaenorol, gwnaethom godi materion mewn perthynas â gweithdrefnau gwael ar gyfer rheoli meddyginiaethau a'r prosesau ar gyfer cynnal a chadw'r amgylcheddau clinigol. Gwelsom welliant amlwg mewn perthynas â'r materion hyn yn ystod yr arolygiad hwn, ac o ganlyniad cawsom sicrwydd fod gweithdrefnau bellach ar waith ar gyfer rheoli meddyginiaethau yn ddiogel. Mae hyn oherwydd y canlynol:

- Roedd polisiâu perthnasol, fel rheoli meddyginiaethau a thawelyddu cyflym, yn gyfredol ac ar gael i'r staff
- Roedd yr ystafelloedd clinig ar y ddwy ward wedi cael eu hadnewyddu ers ein hymweliad blaenorol ac roeddent bellach yn drefnus, yn lân ac yn daclus
- Roedd yr holl feddyginiaethau yn cael eu storio'n briodol mewn cypyrddau ac oergelloedd y gellid eu cloi
- Roedd tymheredd yr oergelloedd meddyginiaeth a'r ystafelloedd clinig yn cael ei wirio bob dydd er mwyn sicrhau bod meddyginiaeth yn cael ei storio ar y tymheredd a argymhellir gan y gwneuthurwr

- Roedd archwiliadau mewnol ac allanol cadarn yn cael eu cynnal bob dydd a bob wythnos
- Roedd y Cofnodion Rhoi Meddyginiaeth electronig (siartiau MAR) yn gynhwysfawr ac yn cael eu cadw i safon dda
- Roedd pob tystysgrif berthnasol yn rhoi cydsyniad i driniaeth yn cael ei storio ochr yn ochr â'r siartiau MAR fel y bo'n ofynnol
- Roedd trefniadau priodol ar waith ar gyfer storio a defnyddio cyffuriau a reolir a chyffuriau y gellid eu camddefnyddio yn ddiogel.

Gwelsom fod profforma archwilio wedi cael ei gyflwyno a fu'n adnodd effeithiol er mwyn helpu i fonitro cydymffurfiaeth yr ysbyty â safonau arferion gorau mewn perthynas â rheoli meddyginiaethau.

Yn ystod ein hadolygiad o gofnodion cleifion, roedd yn ymddangos bod lefel gymharol uchel o feddyginiaethau a roddir drwy ddull mewngyhyrol (IM) yn cael eu defnyddio. Roedd yn gadarnhaol nodi yn ystod ein trafodaethau â'r staff fod y defnydd uchel hwn eisoes wedi cael ei nodi mewn cyfarfodydd a bod uwch-aelodau o'r staff wedi gofyn am waith monitro agosach o'r defnydd o bigiadau mewngyhyrol yn y dyfodol. Yn ystod yr arolygiad, daethom yn ymwybodol bod prinder promethazine ar gyfer pigiadau mewngyhyrol. Rhaid i'r gwasanaeth sicrhau y caiff trefniadau amgen priodol eu gwneud ar gyfer y bobl ifanc hynny sydd â phresgripsiwn ar ei gyfer.

Diogelu plant a diogelu oedolion sy'n agored i niwed

Gwelsom fod pryderon diogelu yn cael eu hatgyfeirio at asiantaethau diogelu allanol. Dywedwyd wrthym fod pryderon diogelu yn cael eu huwchgyfeirio'n fewnol at uwch-aelodau o'r staff, gan gynnwys y gweithiwr cymdeithasol, rheolwyr y ward a'r rheolwr cofrestredig. Fodd bynnag, roedd yn ymddangos bod ansicrwydd o ran pwy oedd yn gyfrifol am bryderon diogelu ac am gymeradwyo pryderon o'r fath, ac am fynychu cyfarfodydd amlasiantaeth mewn perthynas ag achosion diogelu a oedd yn mynd rhagddynt. Dywedodd y staff wrthym hefyd mai anaml y byddent yn cael adborth na diweddariadau ar ganlyniadau unrhyw bryderon diogelu a godwyd ganddynt. Mae'n bwysig rhannu canlyniadau unrhyw ddigwyddiadau a phryderon diogelu â'r staff i'w helpu i ddysgu ac i hyrwyddo diwylliant diogelu effeithiol.

Nodwyd gennym fod pryderon diogelwch yn eitem sefydlog ar yr agenda mewn cyfarfodydd llywodraethu clinigol misol er mwyn helpu i nodi unrhyw themâu a gwersi a ddysgwyd. Gwelsom fod y gyfradd gydymffurfio ymhlith y staff ar gyfer hyfforddiant diogelu yn uchel, sef 88 y cant.

Dyfeisiau, offer a systemau diagnostig meddygol

Roedd proses ar waith i'r staff gynnal gwiriadau ar y cyfarpar dadebru a'r cyfarpar brys a oedd yn cael ei gadw ar bob ward er mwyn sicrhau bod y cyfarpar ar gael ac

yn gyfredol. Er i ni weld tystiolaeth bod gwiriadau o'r fath yn cael eu cynnal, nodwyd gennym mai ar 01 Awst 2022 y cynhaliwyd y gwiriad diwethaf a ddogfennwyd ar y cyfarpar dadebru a'r cyfarpar brys ar Ward Ebbw, sef pythefnos cyn ein harolygiad. Rhaid i'r staff sicrhau y caiff pob gwiriad ei gofnodi ar y cofnodlyfr wythnosol.

Gofal diogel a chlinigol effeithiol

Roedd polisiâu ar waith yn yr ysbyty er mwyn helpu i sicrhau diogelwch a llesiant y bobl ifanc a'r staff. Roedd y polisi ymgysylltu therapiwtig yn disgrifio dulliau i'r staff eu dilyn er mwyn ymgysylltu â'r bobl ifanc mewn ffordd gadarnhaol i leihau risgiau ac atal niwed. Fodd bynnag, yn ystod yr arolygiad, gwelsom rai aelodau o'r staff yn cynnal arsylwadau heb ymgysylltu â'r person ifanc. Roedd yr un peth yn wir ar adegau yn ystod ein harolygiad blaenorol. Adleisiwyd y canfyddiad hwn gan ymatebydd i'r holiadur i aelodau o'r teuluoedd a gofalwyr, a nododd y canlynol:

“Nid yw pob aelod o'r staff yn ymgysylltu â'r cleifion, dim ond syllu ar y wal ac ati”

Cydnabuwyd gennym fod ymdrechion wedi'u gwneud yn dilyn ein hargymhellion er mwyn sicrhau bod y staff yn ymgysylltu ac yn rhyngweithio mewn ffordd gadarnhaol â'r person ifanc wrth gynnal arsylwadau. Roedd hysbysiadau wedi cael eu rhoi yn y coridorau ac anfonwyd neges e-bost at bob aelod o'r staff i'w hatgoffa am ei gyfrifoldebau. Fodd bynnag, nodwyd gennym yn ystod yr arolygiad mai dim ond 40 y cant o'r staff a oedd wedi cwblhau eu hyfforddiant arsylwadau therapiwtig. Rhaid i'r gwasanaeth wneud mwy i sicrhau bod pob aelod o'r staff, gan gynnwys staff asiantaeth, yn gymwys wrth gynnal arsylwadau therapiwtig er mwyn eu helpu i ymgysylltu â'r bobl ifanc yn yr ysbyty a'u cefnogi yn y ffordd orau bosibl. Mae hyn yn bryder penodol o ystyried iddo gael ei nodi yn ystod yr arolygiad blaenorol.

Gwelsom fod y tîm aml-ddisgyblaethol yn adolygu'r defnydd o arferion cyfyngol yn ystod adolygiadau o gynlluniau gofal unigol. Roedd uwch-aelodau o'r staff hefyd yn cynnal cyfarfodydd misol i drafod y dulliau lleiaf cyfyngol er mwyn adolygu cyfyngiadau cyffredinol. Pan ofynnwyd iddynt pa welliannau y gallai'r gwasanaeth eu gwneud, nododd rhai o'r ymatebwyr y canlynol:

“Llacio cyfyngiadau cyffredinol caeth.”

“Mae'r cyfyngiadau yn rhai cyffredinol gan fwyaf, ac nid ydynt yn seiliedig ar anghenion nac ar y risg i'r unigolyn.”

Dylai'r ysbyty ystyried cyfleu'r rhesymeg dros yr arferion cyfyngol cyffredinol sydd ar waith yn yr ysbyty ag aelodau o'r teuluoedd / gofalwyr er mwyn nodi a ellir cyfiawnhau unrhyw eithriadau neu ddiwygiadau.

Dywedwyd wrthym fod hyfforddiant cymorth ymddygiadol cadarnhaol yn cael ei gyflwyno i'r staff er mwyn helpu i leihau ymyriadau cyfyngol. Gwelsom dystiolaeth o ddulliau llongyddu yn cael eu defnyddio ar y bobl ifanc er mwyn helpu i leihau'r angen am ymyriadau corfforol. Roedd pob aelod o'r staff wedi cael hyfforddiant ar Atal a Rheoli Trais ac Ymddygiad Ymosodol. Fodd bynnag, wrth edrych ar y data ar ddigwyddiadau a gadwyd gan yr ysbyty, gwelsom fod nifer uchel o'r bobl ifanc yn cael eu hatal yn gorfforol: bu 937 o ddigwyddiadau o'r fath rhwng mis Ionawr 2022 a mis Gorffennaf 2022.

Er mwyn deall y mater hwn yn fanwl, gwnaethom edrych ar sampl o adroddiadau ar ddigwyddiadau i'n helpu i ddeall a oedd cyfiawnhad dros ddefnyddio dulliau atal o'r fath. Nodwyd gennym nad oedd yr adroddiadau ar ddigwyddiadau yn cynnwys digon o fanylion priodol i roi sicrwydd o'r fath. Nodwyd y mater hwn, sy'n fater o bwys, yn ystod yr arolygiad blaenorol hefyd, ac mae'n destun pryder na welsom fod cynnydd wedi'i wneud wrth ddatrys y mater ac ymdrin ag ef. Rhaid i'r gwasanaeth roi sicrwydd i AGIC am y camau y mae'n eu cymryd i wella ansawdd yr adroddiadau ar ddigwyddiadau. At hynny, rhaid i'r gwasanaeth roi sicrwydd am ei strategaeth ar gyfer lleihau'r nifer o achosion lle caiff y bobl ifanc eu hatal yn gorfforol yn yr ysbyty yn unol â'r Fframwaith ar gyfer Lleihau Arferion Cyfyngol i Gymru.

Rheoli cofnodion

Roedd cofnodion cleifion yn cael eu cadw ar ffurf electronig. Roedd cyfrineiriau yn cael eu defnyddio ar y system electronig er mwyn atal mynediad anawdurdodedig ac achosion o dor-cyfrinachedd. Gwnaethom ddefnyddio'r system drwy gydol yr arolygiad a nodwyd gennym fod cofnodion cleifion yn gynhwysfawr ac yn drefnus, a oedd yn ei gwneud hi'n hawdd symud o adran i adran.

Ceir rhagor o wybodaeth am ein canfyddiadau mewn perthynas â chofnodion cleifion a chynlluniau gofal yn adran Monitro Mesur Iechyd Meddwl (Cymru) 2010: Cynllunio a darparu gofal yr adroddiad hwn.

Monitro'r Ddeddf Iechyd Meddwl

Gwnaethom edrych ar gofnodion dogfennaeth cadw statudol pedwar person ifanc sy'n byw yn yr ysbyty ar hyn o bryd. Gwelwyd bod yr holl gofnodion yn cydymffurfio â'r Ddeddf Iechyd Meddwl a'r Cod Ymarfer. Roedd rhesymau clir yn cael eu dogfennu i ddangos pam mai ei gadw o dan y Ddeddf oedd y ffordd fwyaf priodol o ddarparu gofal i'r person ifanc.

Roedd yn gadarnhaol gweld bod gwelliannau wedi'u gwneud ers ein harolygiad diwethaf, gan gynnwys y canlynol:

- Cyflwynwyd ffurflen er mwyn helpu'r staff i asesu galluedd meddyliol y bobl ifanc i gydsynio i driniaeth, a oedd, yn ein barn ni, yn adlewyrchu'r canllawiau arferion gorau
- Roedd y ffurflenni absenoldeb Adran 17 a welsom bellach yn dangos yn glir bod asesiad risg priodol yn cael ei gynnal ar gyfer y cyfnod o absenoldeb ac yn pennu amodau a chanlyniadau'r cyfnod o absenoldeb ar gyfer pob person ifanc
- Cyflwynwyd cerdyn adnabod i'r staff ei ddefnyddio wrth hebrwng y bobl ifanc ar gyfnod o absenoldeb. Roedd y cerdyn yn cynnwys llun o'r person ifanc ac yn nodi'r risgiau hysbys pe byddai'n dianc.

Roedd y dogfennau a welsom yn drefnus, yn hawdd eu defnyddio ac yn cael eu storio'n ddiogel. Roedd pob tystysgrif berthnasol yn rhoi cydsyniad i driniaeth yn cael ei storio ochr yn ochr â'r siartiau MAR electronig fel y bo'n ofynnol. Gwelsom fod asesiadau gan Feddyg a Benodwyd i Roi Ail Farn (SOAD) wedi cael eu trefnu mewn achosion lle roedd y bobl ifanc wedi gwrthod â rhoi cydsyniad. Fodd bynnag, nid oedd unrhyw brofforma cysylltiedig ar gael i'r ymgylgoreion statudol gofnodi eu barn a llofnodi a dyddio eu casgliadau.

Gwelsom fod y trafodaethau a oedd yn cael eu cynnal gyda'r bobl ifanc am eu habsenoldeb Adran 17 yn cael eu dogfennu yn eu cynlluniau gofal a thriniaeth. Fodd bynnag, ni welsom unrhyw dystiolaeth a oedd yn nodi bod y person ifanc wedi cytuno ag amodau ei gyfnod o absenoldeb.

Roedd system archwilio gadarn ar waith a dywedwyd wrthym fod templed wrthi'n cael ei ddatblygu ar gyfer adroddiad archwilio cryno er mwyn helpu'r staff i ddysgu.

Roedd cymorth da ar gael i'r bobl ifanc gan wasanaeth eiriolaeth lleol a oedd yn cynnal sesiwn galw heibio yn yr ysbyty bob pythefnos. Dywedodd y bobl ifanc y gwnaethom siarad â nhw yn ystod yr arolygiad wrthym eu bod yn ymwybodol o'r eiriolwr a'r cymorth y gall ei ddarparu.

Monitro Mesur Iechyd Meddwl (Cymru) 2010: Cynllunio a darparu gofal

Roedd yn gadarnhaol nodi bod ansawdd y cynlluniau gofal a thriniaeth a welsom wedi gwella'n sylweddol ers ein harolygiad blaenorol. Gwelsom gofnodion dyddiol cyfoes a chynlluniau gofal a thriniaeth wedi'u teilwra at yr unigolyn a oedd yn nodi cyfrifoldebau penodol o fewn y tîm amlddisgyblaethol. Roedd meysydd Mesur Cymru wedi'u hadlewyrchu ac roedd yr amcanion yn canolbwyntio ar wella ac adsefydlu.

Roedd tystiolaeth bod y bobl ifanc wedi cael eu cynnwys yn y broses gofal a thriniaeth, ac roedd lleisiau unigolion wedi'u hadlewyrchu'n dda yn y ddogfennaeth. Roedd gan bob person ifanc asesiadau risg a chynlluniau diogelwch manwl cysylltiedig a oedd yn cynnwys trefniadau ar gyfer cynnal adolygiadau rheolaidd o'r lefelau arsylwi therapiwtig.

Gwelsom fod yr adnodd Sgoriau Rhybudd Cynnar Cenedlaethol yn cael ei ddefnyddio er mwyn helpu i nodi unrhyw ddirywiad o ran iechyd y bobl ifanc. Fodd bynnag, roedd rhai o'r siartiau Sgoriau Rhybudd Cynnar Cenedlaethol a welsom yn dangos nad oedd camau fel lefelau monitro uwch neu uwchgyfeirio achosion bob amser yn cael eu cymryd pan oedd y sgôr yn cyfiawnhau hynny. Rhaid i'r gwasanaeth sicrhau bod y staff yn dilyn canllawiau'r Sgoriau Rhybudd Cynnar Cenedlaethol i uwchgyfeirio arwyddion posibl o ddirywiad yn briodol er mwyn helpu i sicrhau iechyd a diogelwch y bobl ifanc.

Nodwyd gennym fod rhai o'r asesiadau a gynhaliwyd ar y bobl ifanc ar ôl eu derbyn yn nodi bod angen llunio cynlluniau gofal a thriniaeth arbenigol, fel cynlluniau ar gyfer rheoli clwyfau neu gynlluniau cymorth ymddygiadol. Fodd bynnag, nid oedd cynlluniau o'r fath bob amser yn rhan o'r ddogfennaeth. Rhaid i'r gwasanaeth sicrhau y caiff yr holl gynlluniau gofal a thriniaeth gofynnol a nodir ar gyfer y bobl ifanc pan gânt eu derbyn eu llunio wedi hynny. At hynny, dylai'r gwasanaeth adolygu'r cynlluniau gofal a thriniaeth presennol sydd ar waith ar gyfer pob person ifanc ac asesu a oes unrhyw gynlluniau gofal a thriniaeth coll y mae angen eu llunio.

Roedd tystiolaeth o waith cynllunio mewn perthynas â rhyddhau ac ôl-ofal, a nodwyd gennym fod cydgysylltwyr gofal wedi cael eu cynnwys yn y broses.

Ansawdd Rheolaeth ac Arweinyddiaeth

Adborth gan Staff

Gwnaethom wahodd y staff i gwblhau holiaduron AGIC ar ôl yr arolygiad er mwyn cael gwybod eu barn ar y gwasanaeth a ddarperir yn yr ysbyty. Derbyniwyd cyfanswm o 27 o holiaduron wedi'u cwblhau. Roedd ymatebion y staff yn gadarnhaol ar y cyfan, gyda phob ymatebydd yn argymhell yr ysbyty fel lle i weithio ac yn cytuno y byddent yn fodlon ar y safon o ofal a ddarperir i'w ffrindiau neu aelodau o'u teulu. Caiff rhai o ganlyniadau'r holiadur a sylwadau gan aelodau o'r staff eu nodi drwy gydol yr adroddiad.

Fframwaith llywodraethu ac atebolrwydd

Roedd yn gadarnhaol, drwy gydol yr arolygiad, bod y staff a'r uwch-reolwyr yn fodlon derbyn ein barn, ein canfyddiadau a'n hargymhellion. Gwelsom aelodau o'r staff nyrso yn gweithio fel tîm yn ystod ein cyfnod yn yr ysbyty. Yn ystod y cyfarfodydd y gwnaethom arsylwi arnynt, gwelsom fod aelodau'r tîm amlddisgyblaethol yn cydweithio'n dda ac roedd yn amlwg eu bod yn deall anghenion y bobl ifanc yn dda. Roedd pob aelod o'r tîm amlddisgyblaethol yn cael amser i leisio ei farn.

Bu'n galonogol gweld gwelliant yn y trefniadau llywodraethu ac archwilio sydd ar waith ers ein harolygiad blaenorol. Mae hyn wedi helpu i sicrhau bod gan y rheolwyr well trosolwg o faterion clinigol a gweithredol. Roedd yr agendâu ar gyfer y cyfarfodydd llywodraethu clinigol yn dangos amrywiaeth eang o eitemau sefydlog er mwyn helpu i sicrhau bod yr ysbyty yn canolbwyntio ar bob agwedd ar y gwasanaeth.

Roedd y rhan fwyaf o'r staff a gwblhaodd holiadur yn cytuno eu bod yn gwybod pwy oedd yr uwch-reolwyr yn yr ysbyty, eu bod yn weladwy, a'u bod yn ymrwymedig i ofal cleifion. Fodd bynnag, dywedodd tua hanner y staff a gwblhaodd holiadur nad oedd y cyfathrebu rhwng yr uwch-reolwyr a'r staff yn effeithiol ac nad yw'r uwch-reolwyr yn ceisio cynnwys y staff mewn penderfyniadau pwysig. Roedd yr holiadur yn gofyn cwestiwn i'r staff am sut y gallai'r ysbyty wella'r gwasanaeth a ddarperir ganddo, ac roedd y sylwadau yn cynnwys y canlynol:

“Gwell cyfathrebu gan yr uwch-reolwyr.”

“Mae angen gwell cyfathrebu rhwng y staff a'r rheolwyr. Ymddengys fod materion systemig yn gysylltiedig â chyfathrebu ym mhob rhan o'r lleoliad ar bob lefel.”

“Mwy o gyfathrebu â'r gweithwyr gofal iechyd. Llai o agwedd ni a nhw mewn perthynas â gweithwyr gofal iechyd a gweddill yr ysbyty”

Dylai uwch-reolwyr yr ysbyty ystyried yr agwedd hon ar adborth y staff a myfyrio arni.

Delio â phryderon a rheoli digwyddiadau

Roedd gwybodaeth am sut y gallai'r bobl ifanc gwyno neu godi pryder i'w gweld ym mhob rhan o'r ysbyty. Dywedodd y bobl ifanc y gwnaethom siarad â nhw yn ystod yr arolygiad eu bod yn gwybod sut i gwyno pe byddent am wneud hynny. Dywedodd bron pob un o'r ymatebwyr i'r holiadur i aelodau o'r teuluoedd a gofalwyr hefyd eu bod yn gwybod sut i godi pryder. Fodd bynnag, dywedodd un ymatebydd:

“Nid yw'r staff/rheolwyr yn ymateb i'm cwynion na'm pryderon.”

Er i ni edrych ar sampl o'r cwynion ac i ni nodi eu bod wedi cael eu cydnabod, dylai'r gwasanaeth sicrhau yr ymatebir i bob cwyn neu bryder yn unol â'r polisi cwynion.

Dywedodd y rhan fwyaf o'r staff a gwblhaodd holiadur wrthym pe byddent yn poeni am ymarfer anniogel yn yr ysbyty, y byddent yn gwybod sut i roi gwybod amdano. Roedd y staff hefyd yn cytuno y byddent yn teimlo'n ddiogel yn codi pryderon am ofal cleifion neu faterion eraill yn yr ysbyty. Awgrymodd un aelod o'r staff y gwelliant canlynol yn yr holiaduron:

“Mwy o TG/cyfrifiaduron ar gyfer rhoi gwybod am ddigwyddiadau. Mwy o staff er mwyn gallu rhoi gwybod am ddigwyddiadau ar ôl iddynt ddigwydd yn hytrach nag oedi.”

Rydym wedi sôn eisoes yn yr adroddiad fod yn rhaid i'r gwasanaeth ganolbwyntio ar wella ansawdd yr adroddiadau ar ddigwyddiadau er mwyn sicrhau y gall y rheolwyr nodi meysydd i'w gwella yn effeithiol. Dylai'r gwasanaeth fyfyrion ar yr adborth hwn fel rhan o'i ymateb i AGIC.

Cynllunio'r gweithlu, hyfforddiant a datblygiad sefydliadol

Roedd y rhan fwyaf o'r staff a gwblhaodd holiadur yn cytuno bod digon o staff yn yr ysbyty i'w galluogi i wneud eu gwaith yn iawn a bod cymysgedd priodol o sgiliau. Fodd bynnag, dywedodd un aelod o'r staff:

“Mae angen mwy o staff er mwyn ymdrin â chyfnodau anodd yn ddiogel.”

Ar adeg ein harolygiad, roedd yn ymddangos bod digon o

staff a oedd wedi'u hyfforddi'n briodol i ddiwallu'r anghenion a aseswyd ar gyfer y bobl ifanc yn yr ysbyty. Fodd bynnag, roedd yn amlwg o'r trafodaethau â'r staff, ac o edrych ar y rotas staffio, fod cyfran uchel o staff asiantaeth wedi cael eu defnyddio yn yr ysbyty pan oedd prinder staff. Dywedodd un ymatebydd i'r holiadur i aelodau o'r teuluoedd a gofalgwyr:

“Mae'r staff arferol (y mae rhai ohonynt yn staff asiantaeth sy'n gweithio yn yr ysbyty yn rheolaidd) yn adnabod y cleifion yn well, yn rhyngweithio'n well â nhw ac yn gallu eu cefnogi'n well.”

Dywedwyd wrthym lle bynnag y bo'n bosibl fod yr un aelodau o staff asiantaeth sy'n gyfarwydd â'r ysbyty yn cael eu defnyddio er mwyn darparu cysondeb i'r bobl ifanc. Fodd bynnag, gan fod yr ysbyty yn dibynnu ar staff asiantaeth, roedd lefel uchel o staff gwrywaidd yn gweithio yn yr ysbyty. Cafwyd canfyddiad tebyg yn ystod ein harolygiad blaenorol o'r ysbyty. Dywedwyd wrthym fod strategaethau ar waith i gadw staff ac y byddai'r broses o recriwtio staff parhaol yn canolbwyntio ar gyflogi staff benywaidd er mwyn helpu i ddiwallu anghenion y bobl ifanc. Gall ymdrechion pellach i recriwtio tîm nyrsio amrywiol hefyd helpu i gynnig mwy o gyfleoedd i ddatblygu cydberthnasau therapiwtig. Rhaid i'r gwasanaeth barhau i fod yn ystyriol wrth gyflogi staff asiantaeth er mwyn sicrhau nad yw cyfran y staff asiantaeth sy'n gweithio yn yr ysbyty yn effeithio ar ddiogelwch y gofal a ddarperir i'r bobl ifanc.

Gwnaethom edrych ar yr ystadegau o ran hyfforddiant gorfodol ar gyfer y staff yn yr ysbyty a gwelsom fod cyfraddau cwblhau yn uchel ar y cyfan. Dywedodd y rhan fwyaf o'r aelodau o staff a gwblhaodd holiadur wrthym fod yr hyfforddiant yn eu helpu i wneud eu gwaith yn fwy effeithiol, yn eu helpu i sicrhau eu bod yn bodloni'r gofynion proffesiynol cyfredol ac yn eu helpu i roi profiad gwell i'r cleifion.

Arferion recriwtio a chyflogi'r gweithlu

Gwelsom fod gweithdrefnau ar waith i sicrhau bod trefniadau recriwtio yn dilyn proses agored a theg. Cyn iddynt gael eu cyflogi, rhaid i ddarpar aelodau o'r staff ddarparu dau eirida a thystiolaeth o gymwysterau proffesiynol. Rhaid hefyd darparu gwiriad priodol gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (DBS) er mwyn helpu i sicrhau bod y staff yn addas i weithio yn yr ysbyty.

Mae staff parhaol newydd a gaiff eu penodi yn ymgymryd â chyfnod sefydlu er mwyn dysgu am yr ysbyty, darllen polisiau'r cwmni a chwblhau hyfforddiant gorfodol. Caiff y staff eu hasesu gan yr uwch-reolwyr ar ôl chwe mis er mwyn sicrhau eu bod wedi dangos eu bod yn gymwys i wneud y gwaith yn ymarferol. Dywedwyd wrthym fod staff asiantaeth yn cael cyfnod sefydlu o ddwy awr yn ystod eu shifft gyntaf sy'n cynnwys taith o amgylch yr ysbyty ac arweiniad o ran sut i ddefnyddio'r larymau personol. Caiff staff asiantaeth hefyd eu briffio ar y risgiau

unigol, y sbardunau a'r strategaethau llonyddu sy'n gysylltiedig â phob person ifanc ar y ward y byddant yn gweithio arni.

Roedd polisi chwythu'r chwiban ar waith pe byddai'r staff yn awyddus i godi unrhyw bryderon yn uniongyrchol â chyfarwyddwr yr ysbyty, y darparwr cofrestredig neu gorff priodol amgen pe byddai angen.

4. Y camau nesaf

Lle rydym wedi nodi gwelliannau a phryderon uniongyrchol yn ystod ein harolygiad y mae'n ofynnol i'r gwasanaeth gymryd camau yn eu cylch, nodir y rhain yn y ffyrdd canlynol yn atodiadau'r adroddiad hwn (lle y bônt yn gymwys):

- Atodiad A: Yn cynnwys crynodeb o unrhyw bryderon am ddiogelwch cleifion a gafodd eu huwchgyfeirio a'u datrys yn ystod yr arolygiad
- Atodiad B: Yn cynnwys unrhyw bryderon uniongyrchol am ddiogelwch cleifion lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella ar unwaith gan ddweud wrthym am y camau brys y mae'n eu cymryd
- Atodiad C: Yn cynnwys unrhyw welliannau eraill a nodwyd yn ystod yr arolygiad, lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella sy'n dweud wrthym am y camau y mae'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn.

Dylai'r cynlluniau gwella wneud y canlynol:

- Nodi'n glir sut yr ymdrinnir â'r canfyddiadau a nodwyd
- Sicrhau bod y camau a gymerir mewn ymateb i'r materion a nodwyd yn benodol, yn fesuradwy, yn gyflawnadwy, yn realistig ac wedi'u hamseru
- Cynnwys digon o fanylion er mwyn rhoi sicrwydd i AGIC a'r cyhoedd yr ymdrinnir â'r canfyddiadau a nodwyd yn ddigonol
- Sicrhau bod y dystiolaeth ofynnol yn erbyn y camau a nodwyd yn cael ei rhoi i AGIC o fewn tri mis i'r arolygiad.

O ganlyniad i ganfyddiadau'r arolygiad hwn, dylai'r gwasanaeth wneud y canlynol:

- Sicrhau nad yw'r canfyddiadau yn systemig ar draws rhannau eraill o'r sefydliad ehangach
- Rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i AGIC pan fydd camau yn dal i fod heb eu cymryd a/neu ar y gweill, er mwyn cadarnhau pan fyddant wedi cael eu cwblhau.

Caiff y cynllun gwella, ar ôl cytuno arno, ei gyhoeddi ar [wefan](#) AGIC.

Atodiad A - Crynodeb o bryderon a ddatryswyd yn ystod yr arolygiad

Mae'r tabl isod yn crynhoi'r pryderon a gafodd eu nodi a'u huwchgyfeirio yn ystod ein harolygiad. Oherwydd yr effaith/effaith bosibl ar ofal a thriniaeth y cleifion, roedd angen rhoi sylw i'r pryderon hyn ar unwaith, yn ystod yr arolygiad.

| Pryderon uniongyrchol a nodwyd | Effaith/effaith bosibl ar ofal a thriniaeth y cleifion | Sut gwnaeth AGIC uwchgyfeirio'r pryder | Sut cafodd y pryder ei ddatrys |
|---|--|--|--------------------------------|
| Ni nodwyd unrhyw bryderon uniongyrchol yn ystod yr arolygiad hwn. | | | |

Atodiad B - Cynllun gwella ar unwaith

Gwasanaeth: Ysbyty Hillview

Dyddiad yr arolygiad: 15, 16 ac 17 Awst 2022

Mae'r tabl isod yn cynnwys unrhyw bryderon uniongyrchol am ddiffyg cydymffurfio sy'n ymwneud â diogelwch y cleifion a nodwyd yn ystod yr arolygiad lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella ar unwaith sy'n nodi'r camau brys y mae'n eu cymryd.

| Yr hyn sydd angen ei wella | Safon/ Rheoliad | Camau gweithredu gan y gwasanaeth | Swyddog cyfrifol | Amserlen |
|---|-----------------|-----------------------------------|------------------|----------|
| Ni nodwyd unrhyw bryderon uniongyrchol am ddiffyg cydymffurfio sy'n ymwneud â diogelwch cleifion yn ystod yr arolygiad hwn. | | | | |

Atodiad C - Cynllun gwella

Gwasanaeth: Ysbyty Hillview

Dyddiad yr arolygiad: 15, 16 ac 17 Awst 2022

Mae'r tabl isod yn cynnwys unrhyw welliannau eraill a nodwyd yn ystod yr arolygiad, lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella sy'n dweud wrthym am y camau y mae'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn.

| Yr hyn sydd angen ei wella | Safon/ Rheoliad | Camau gweithredu gan y gwasanaeth | Swyddog cyfrifol | Amserlen |
|---|-------------------------------|---|--|--|
| Rhaid i'r asesiadau iechyd corfforol a gynhelir gael eu teilwra at yr unigolyn yn hytrach na dilyn templed cyffredinol. | Hybu, diogelu a gwella iechyd | <ul style="list-style-type: none"> Trafododd RC y broses ar gyfer cwblhau'r asesiadau iechyd corfforol â'r Meddygon Arbenigol. Caiff pob person ifanc ei asesu adeg ei dderbyn mewn perthynas â phryderon iechyd corfforol. Caiff unrhyw bryderon iechyd corfforol eu cofnodi fel rhan o gynllun gofal a chânt eu hadolygu bob mis. Cafodd yr holl gynlluniau gofal ar gyfer y bobl ifanc eu hadolygu er mwyn sicrhau eu bod wedi'u teilwra at yr unigolyn. Mae'r tîm PCA yn bwriadu cynnal asesiad o'r cynlluniau gofal ar 16 Rhagfyr Creu cyswllt rhwng RC â'r meddygon yn y rhanbarth er mwyn annog trefniadau ar gyfer rhannu arferion gorau. | <p>RC a'r Meddyg Arbenigol</p> <p>Tîm Amlddisgyblaethol</p> <p>Tîm PCA</p> <p>Cyfarwyddwr Gwasanaethau Rhanbarthol</p> | <p>Rhagfyr 2022</p> <p>Rhagfyr 2022 Rhagfyr 2022 Wedi'i gwblhau</p> <p>Ionawr 2023</p> |

| Yr hyn sydd angen ei wella | Safon/ Rheoliad | Camau gweithredu gan y gwasanaeth | Swyddog cyfrifol | Amserlen |
|--|-------------------------------|--|---|--|
| | | Hysbysebwyd swydd nyrs gyffredinol gofrestredig ar wefan Elysium. Cynhelir cyfweiliadau ar gyfer ymgeiswyr maes o law. | Cyfarwyddwr Gwasanaethau Rhanbarthol | |
| Rhaid adolygu'r ystafell dawel ar ward Tŷ Seren er mwyn sicrhau ei bod yn darparu digon o seddau a man cyfforddus a hamddenol lle gall y bobl ifanc ymdawelu os bydd angen. | Hybu, diogelu a gwella iechyd | Adolygwyd y sefyllfa ac mae seddau newydd wedi cael eu gosod yn yr ystafell dawel. Trafod yr ystafell dawel â'r staff yn ystod cyfarfod ward er mwyn cael gwybod eu barn ar yr ystafell dawel ar ddechrau'r gwaith adnewyddu Trafod yr ystafell dawel yn y cyfarfodydd cymunedol er mwyn cael gwybod eu barn ar yr ystafell dawel. Gan fod Elysium wedi cymryd cyfrifoldeb dros Hillview yn ddiweddar ac y caiff rhaglen adnewyddu ei datblygu, caiff barn y cleifion ei chynnwys fel rhan o'r rhaglen adnewyddu hon. | Rheolwr y Ward Rheolwr y Ward Ystadau Rhanbarthol/ Cyfarwyddwr Gwasanaethau/ Cyfarwyddwr yr Ysbyty | Wedi'i gwblhau Rhagfyr 2022 Mai 2023 |
| Rhaid i'r gwasanaeth sicrhau bod gweithgareddau therapiwtig yn cael eu cynnal fel y bwriadwyd. | Hybu, diogelu a gwella iechyd | Mae cynllun ar waith i sicrhau bod gweithgareddau yn cael eu cynnal fel y bwriadwyd: Gan gynnwys: <ul style="list-style-type: none"> • Diweddarau'r calendr a'i gyflwyno ar deledu'r wardiau bob dydd • Trafod y sesiynau gweithgareddau a gynlluniwyd a'u cadarnhau yn ystod y cyfarfodydd boreol | Therapi Galwedigaethol | Wedi'i gwblhau |

| Yr hyn sydd angen ei wella | Safon/ Rheoliad | Camau gweithredu gan y gwasanaeth | Swyddog cyfrifol | Amserlen |
|--|--------------------------------|--|---|--|
| | | <ul style="list-style-type: none"> • Y timau nyrsio i gysylltu â phenaethiaid adran (y tîm sy'n hwyluso'r sesiwn) os na fydd hwylusydd wedi dechrau'r sesiwn o fewn 5 munud. • Mae'r Arweinydd Therapi Galwedigaethol neu'r Arweinydd Clinigol yn anfon diweddariad gweithgareddau wythnosol at y rheolwr cofrestredig at ddibenion monitro. • Unwaith y bydd systemau Elysium wedi cael eu rhoi ar waith yn Hillview, bydd aelodau'r tîm yn defnyddio dull Meaningful Week, sef system electronig. Mae hyn yn galluogi unigolion i adolygu gweithgareddau yn hawdd, i weld sawl awr a gynigir fesul claf, sawl awr a dderbyniwyd neu a wrthodwyd. Caiff y wybodaeth hon ei hystyried yn ystod cyfarfodydd Llywodraethu Clinigol bob mis. | <p>Therapi Galwedigaethol Tîm Nyrsio</p> <p>Cyfarwyddwr Gwasanaethau Rhanbarthol a Chyfarwyddwr yr Ysbyty</p> | <p>Wedi'i gwblhau</p> <p>Wedi'i gwblhau</p> <p>Ebrill 2023</p> |
| <p>Rhaid i'r gwasanaeth wella ei drefniadau ar gyfer cyfathrebu ag aelodau o deuluoedd a gofalwyr y bobl ifanc yn yr ysbyty mewn perthynas â'u</p> | <p>Cyfathrebu'n effeithiol</p> | <p>Cyflwynwyd y fforwm i deuluoedd. Cynhaliwyd y fforwm cyntaf ar 6 Rhagfyr 2022.</p> <p>Roedd y cyfarwyddwr gwasanaethau rhanbarthol ac aelodau o'r uwch-dîm yn bresennol yn y cyfarfod hwn.</p> | <p>Cyfarwyddwr Gwasanaethau Rhanbarthol</p> | <p>Wedi'i gwblhau</p> |

| Yr hyn sydd angen ei wella | Safon/ Rheoliad | Camau gweithredu gan y gwasanaeth | Swyddog cyfrifol | Amserlen |
|---|--------------------|--|------------------|--|
| <p>gofal a'u llesiant (lle bo cyswllt yn briodol).</p> | | <p>Yn ystod y cyfarfod cyntaf â'r teuluoedd, cytunwyd ar gynllun o ran amllder y fforymau i deuluoedd. Penderfynwyd y byddent yn hoffi i'r fforymau gael eu cynnal bob mis i ddechrau. Cytunwyd ar amser hefyd. Gofynnwyd i'r teuluoedd a'r gofalwyr am bynciau yr hoffent gael cyflwyniad arnynt yn ystod y fforwm i deuluoedd er mwyn casglu mwy o wybodaeth. Awgrymwyd cymorth yn ystod prydau bwyd a gwybodaeth am leihau arferion cyfyngol.</p> <p>Yn dilyn trafodaeth â'r teuluoedd, cytunwyd y bydd y gwasanaeth yn ystyried y posibilrwydd o DBT a therapi teulu i grwpiau ar gyfer y teuluoedd.</p> <p>Gofynnwyd iddynt gytuno ar fathau eraill o gyfathrebu. Cynigiwyd cylchlythyr misol ac roedd y gofalwyr o'r farn y byddai hynny'n fuddiol.</p> <p>Rheolwyr y ward i gysylltu ag aelodau o'r teuluoedd i drafod y cam gweithredu hwn ac i ganfod eu barn o ran sut yr hoffent gyfathrebu â rheolwyr y ward er mwyn sicrhau bod y nyrsys yn cysylltu â'r teulu bob wythnos.</p> | | <p>Rhagfyr 2022</p> <p>Chwefror 2022</p> |

| Yr hyn sydd angen ei wella | Safon/ Rheoliad | Camau gweithredu gan y gwasanaeth | Swyddog cyfrifol | Amserlen |
|---|--|--|--|---|
| | | Caiff aelodau o'r teuluoedd a gofalwyr eu cynnwys mewn cyfarfodydd Llywodraethu Clinigol, gan roi fforwm iddynt roi adborth ar gyfathrebu. | | |
| Rhaid trwsio'r lifft ar ward Tŷ Seren. | Cydraddoldeb, amrywiaeth a hawliau dynol | Mae'r lifft yn gweithio erbyn hyn. Mae cynllun gwasanaethu ar waith er mwyn gwasanaethu'r lifft bob chwarter ac mae cytundeb galw allan ar waith | Arweinydd lechyd a Diogelwch | Wedi'i gwblhau Hydref 2022. |
| Rhaid i'r gwasanaeth adolygu ei drefniadau ymweld, gan gynnwys amllder ymweliadau, er mwyn sicrhau eu bod yn diwallu anghenion y bobl ifanc ac aelodau o'u teuluoedd a'u gofalwyr. | Cydraddoldeb, amrywiaeth a hawliau dynol | <p>Yn dilyn ymweliad AGIC, nid ydym yn cyfyngu ar amllder ymweliadau a chan ddibynnu faint o deuluoedd sydd wedi gofyn am gael ymweld, byddwn yn caniatáu pob cais am ymweliadau dydd.</p> <p>Ystyriodd Ysbyty Hillview ar ei drefniadau ymweld yn y fforwm i deuluoedd i ddechrau gan drafod y mater ag aelodau o'r teuluoedd ar 6 Rhagfyr 2022. Gwnaethom drafod sut i wella'r profiad ymweld. Byddwn hefyd yn cysylltu ag aelodau unigol o deuluoedd i drafod y trefniadau ymweld.</p> <p>Fel rhan o'r trafodaethau ar Leihau Ymyriadau Cyfyngol, byddwn yn edrych ar bob system a phroses yn yr ysbyty, gan gynnwys trefniadau ymweld.</p> | <p>Cyfarwyddwyr yr Ysbyty/ Cyfarwyddwr Gwasanaethau Rhanbarthol</p> <p>Cyfarwyddwr yr Ysbyty</p> | <p>Chwefror 2022</p> <p>Chwefror 2022</p> |

| Yr hyn sydd angen ei wella | Safon/ Rheoliad | Camau gweithredu gan y gwasanaeth | Swyddog cyfrifol | Amserlen |
|--|--|--|---------------------------|----------------------|
| | | <p>Bydd Hillview yn mabwysiadu polisiâu Elysium ar ymwelwyr ac yn datblygu gweithdrefn leol os bydd angen.</p> <p>Caiff asesiadau risg eu cwblhau ar gyfer unrhyw drefniadau ymweld er mwyn sicrhau eu bod yn cael eu hwyluso mewn ffordd ddiogel a chefnogol.</p> | | |
| <p>Rhaid i'r gwasanaeth sicrhau y caiff y broses ar gyfer nodi staeniau gwaed a chael gwared arnynt yn dilyn digwyddiadau ei gwella a'i rhoi ar waith mewn ffordd fwy amserol.</p> | <p>Atal a rheoli heintiau a dihalogi</p> | <p>Caiff archwiliadau amgylcheddol eu cynnal ar ôl pob digwyddiad lle bydd angen atal unigolyn yn gorfforol er mwyn rhoi sicrwydd i dîm y ward bod yr amgylchedd yn ddiogel, gan gynnwys gofyniad i'r Nyrs â Chyfrifoldeb edrych am staeniau gwaed neu eitemau cyfyngol y gellid bod wedi'u gadael yn dilyn digwyddiad.</p> <p>Bydd y Nyrs â Chyfrifoldeb yn sicrhau ei bod yn rhoi gwybod i'r shifft nesaf a gafodd pob ardal y gallai fod olion hylifau'r corff ynddi ei glanhau ac yn annog y staff yn ystod y cyfnod trosglwyddo i weithredu yn dilyn unrhyw ddigwyddiad lle y gallai hylifau'r corff fod wedi cael eu gollwng.</p> <p>Mae cyfarpar glanhau ar gael yn y cwpwrdd cadw tŷ ar bob ward, yn y gorsafoedd nyrsio a chaiff pecynnau gollyngiadau corfforol eu storio yn y</p> | <p>Arweinydd Clinigol</p> | <p>Tachwedd 2022</p> |

| Yr hyn sydd angen ei wella | Safon/ Rheoliad | Camau gweithredu gan y gwasanaeth | Swyddog cyfrifol | Amserlen |
|--|--|--|---|---|
| | | <p>clinigau. Gofynnir hefyd i staff y ward ymgymryd â dyletswyddau glanhau yn ystod y shifft nos er mwyn sicrhau bod yr ardaloedd yn cael eu cadw'n lân ar gyfer y bore canlynol.</p> <p>Cyfarfu'r Cyfarwyddwr Gwasanaethau Rhanbarthol â'r uwch-weithwyr cymorth i'w hysbysu ynghylch adolygu'r amgylchedd yn dilyn digwyddiadau lle gwelwyd gwaed er mwyn sicrhau bod yr amgylchedd yn lân.</p> | | |
| <p>Rhaid cynnal yr amserlenni glanhau yn unol â'r disgwyliadau.</p> | <p>Atal a rheoli heintiau a dihalogi</p> | <p>Mae'r amserlenni glanhau yn cael eu gwirio bob wythnos a chaiff unrhyw hepgoriadau eu hadolygu neu gweithredu yn eu cylch fel y bo'n ofynnol.</p> <p>Bydd yr amserlenni glanhau yn rhan o gyfarfod llywodraethu gweithredol Elysium ar y safle bob mis</p> <p>Mae'r Arweinydd lechyd a Diogelwch yn cynnal ymweliadau â'r wardiau i adolygu'r amserlenni glanhau.</p> <p>Mae'r amserlenni glanhau presennol yn nodi'r rhaglen glanhau manwl ac amllder.</p> | <p>Arweinydd lechyd a Diogelwch</p> <p>Arweinydd lechyd a Diogelwch</p> <p>Arweinydd lechyd a Diogelwch</p> <p>Arweinydd lechyd a Diogelwch</p> | <p>Parhaus.</p> <p>Ionawr 2022</p> <p>Parhaus</p> <p>Parhaus</p> <p>Parhaus</p> |

| Yr hyn sydd angen ei wella | Safon/ Rheoliad | Camau gweithredu gan y gwasanaeth | Swyddog cyfrifol | Amserlen |
|--|--------------------|--|---|------------------------------|
| | | Caiff archwiliadau atal a rheoli heintiau misol eu cwblhau a chaiff y wybodaeth hon ei chyflwyno yn ystod y cyfarfodydd Llywodraethu bob mis. | Arweinydd Iechyd a Diogelwch | |
| <p>Rhaid i'r gwasanaeth sicrhau bod eitemau bwyd a diod yn cynnwys manylion pryd y caiff cynnyrch ei agor, erbyn pryd y dylid ei ddefnyddio ac enw'r person ifanc.</p> | Maeth | <p>Pan fydd bwyd yn cyrraedd y wardiau, mae staff y ward yn labelu'r bwyd gan nodi'r dyddiad agor ac enw'r claf.</p> <p>Caiff y protocol ei arddangos yn y gwasanaethau i bob aelod o'r staff ei ddarllen.</p> <p>Mae'r uwch-weithwyr cymorth yn edrych ar yr eitemau yn yr oergell wrth fesur y tymheredd yn ystod y shift ac yn cael gwared ar unrhyw eitemau nad ydynt wedi'u marcio'n glir. Yn ogystal â hyn, mae staff y gegin hefyd yn edrych yn yr oergelloedd i sicrhau nad oes unrhyw eitemau heb eu labelu neu lle mae'r dyddiad arnynt wedi mynd heibio. Byddai'r cleifion yn cael gwybod am unrhyw eitemau a waredwyd a chaiff dewis amgen ei gynnig iddynt.</p> | <p>Arweinydd Iechyd a Diogelwch</p> <p>Arweinydd Clinigol</p> | Parhaus. |
| <p>Rhaid i'r gwasanaeth sicrhau y caiff y cyfiawnhad dros fwydo gan ddefnyddio tiwb nasogastrig ei gofnodi ar gyfer</p> | Maeth | Caiff y cyfiawnhad dros fwydo claf gan ddefnyddio tiwb nasogastrig ei gofnodi yn nodiadau'r cleifion | Y Clinigydd Cyfrifol a'r Deietegydd | Wedi'i gwblhau ac yn barhaus |

| Yr hyn sydd angen ei wella | Safon/ Rheoliad | Camau gweithredu gan y gwasanaeth | Swyddog cyfrifol | Amserlen |
|---|--|--|-------------------------------------|------------------------------|
| pob person ifanc yr ystyrir bod hynny'n briodol ar ei gyfer. | | Caiff cynlluniau bwydo gan ddefnyddio tiwb nasogastrig eu cynnwys ar Ashtons Live o dan yr adran dogfennau clinigol. | | |
| Rhaid i gynlluniau gofal a thriniaeth nodi a ddylai pob person ifanc gadw ei diwb nasogastrig yn ei le neu a ddylid ei dynnu ar ôl bwydo. | Maeth | Caiff tiwbiau nasogastrig eu trafod yn ystod rowndiau o'r ward a gwneir penderfyniad ynghylch cadw'r tiwb yn ei le neu ei dynnu ar ôl bwydo yn seiliedig ar risg y claf ar y pryd. Caiff barn y cleifion ei hystyried yn ystod rowndiau o'r ward. | Y Clinigydd Cyfrifol a'r Deietegydd | Wedi'i gwblhau ac yn barhaus |
| Rhaid i'r gwasanaeth sicrhau y caiff trefniadau amgen priodol eu gwneud ar gyfer y bobl ifanc hynny sydd â phresgripsiwn ar gyfer promethazine ar gyfer pigladau mewngyhyrol. | Rheoli meddyginiaethau | Ymdriniwyd â'r mater hwn yn ystod yr ymweliad pan nododd system Ashtons fod prinder o ran y feddyginiaeth. Rhoddwyd presgripsiwn ar gyfer meddyginiaeth mewngyhyrol wahanol i bob person ifanc a oedd yn cael promethazine mewngyhyrol ar bresgripsiwn (os nodwyd bod hynny'n addas yn glinigol). Fel arall, rhoddwyd presgripsiwn iddynt ar gyfer promethazine drwy'r geg, a oedd ar gael yn hawdd. | Arweinydd Clinigol | Wedi'i gwblhau |
| Rhaid i'r gwasanaeth wella'r trefniadau ar gyfer cyfathrebu â'r staff mewn perthynas â chanlyniad unrhyw | Diogelu plant a diogelu oedolion sy'n agored i niwed | Cynhaliwyd adolygiad o'r broses ar gyfer y cyfarfodydd boreol. | Arweinydd Clinigol | Wedi'i gwblhau ac yn barhaus |

| Yr hyn sydd angen ei wella | Safon/ Rheoliad | Camau gweithredu gan y gwasanaeth | Swyddog cyfrifol | Amserlen |
|--|---|---|--|--|
| <p>ddigwyddiadau diogelu y buont yn gysylltiedig â nhw neu a godwyd ganddynt.</p> | | <p>Caiff pob digwyddiad diogelu ei drafod yn ystod y cyfarfod boreol a chaiff camau gweithredu eu cofnodi.</p> <p>Caiff unrhyw wersi a ddysgwyr eu trafod yn ystod y cyfarfodydd Llywodraethu Clinigol misol a'u lledaenu i bob aelod o'r staff drwy gyfarfodydd tîm a sesiynau goruchwyllo. Gan ddibynnu ar y pryder diogelu, byddem yn cyfarfod yn unigol â'r staff i roi adborth iddynt os yn briodol, ac yn defnyddio sesiynau goruchwyllo a threfniadau ymarfer myfyriol</p> | <p>Tîm Amlddisgyblaethol</p> <p>Tîm Amlddisgyblaethol/ Cyfarwyddwr yr Ysbyty</p> | <p>Rhagfyr 2022</p> |
| <p>Rhaid i'r gwasanaeth sicrhau bod cyfrifoldeb cliriach mewn perthynas â pherchenogaeth dros unrhyw bryderon diogelu a godwyd a'r trefniadau ar gyfer cymeradwyo pryderon o'r fath.</p> | <p>Diogelu plant a diogelu oedolion sy'n agored i niwed</p> | <p>Rydym wedi cyflwyno adolygiad diogelu wythnosol â'r arweinydd rhanbarthol. Roedd hyn yn cynnwys monitro'r gronfa ddata.</p> <p>Rydym wedi trefnu hyfforddiant diogelu plant Lefel 4 i bedwar aelod o'r staff. Rydym wedi trefnu cwrs Diogelu lefel 4 deuddydd ar 14 a 15 Rhagfyr i dri aelod o'r staff.</p> <p>Caiff yr holl drefniadau diogelu eu hadolygu yn ystod y cyfarfodydd llywodraethu clinigol.</p> <p>Caiff digwyddiadau diogelu eu hadolygu yn ystod y cyfarfod boreol, caiff camau gweithredu eu nodi a</p> | <p>Cyfarwyddwr Gwasanaethau Rhanbarthol</p> <p>Tîm Amlddisgyblaethol</p> | <p>Wedi'i gwblhau</p> <p>Rhagfyr 2022</p> <p>Ionawr 2023</p> |

| Yr hyn sydd angen ei wella | Safon/ Rheoliad | Camau gweithredu gan y gwasanaeth | Swyddog cyfrifol | Amserlen |
|--|--|--|---------------------------|---|
| | | chaiff person cyfrifol ei nodi. Wedyn, caiff y camau gweithredu hyn eu holrhain. | Tîm Amlddisgyblaethol | Wedi'i gwblhau |
| <p>Rhaid i'r gwasanaeth sicrhau y caiff yr holl archwiliadau a gynhelir ar y cyfarpar dadebru a'r cyfarpar brys yn yr ysbyty eu cofnodi'n gywir yn y cofnodlyfrau wythnosol.</p> | <p>Dyfeisiau, offer a systemau diagnostig meddygol</p> | <p>Cynhelir archwiliadau wythnosol o'r holl gyfarpar Cymorth Cyntaf sydd ei angen ar gyfer achosion brys ac achosion dadebru a chânt eu cofnodi ar y cofnodlyfrau wythnosol. Mae pob bag Cymorth Cyntaf wedi'i selio er mwyn sicrhau nad amharwyd ag unrhyw fag a bod y cyfarpar a nodir yn y cofnodlyfr wedi'i gynnwys yn y bag hwnnw. Caiff cyflenwadau ocsigen ar y safle hefyd eu harchwilio bob wythnos er mwyn sicrhau bod cyflenwadau digonol ar gael, bod lleoliad y cyflenwadau hynny yn glir a'u bod yn gyfredol.</p> <p>Caiff y pedwar Diffibriliwr Allanol Awtomataidd eu harchwilio bob mis. Caiff yr archwiliadau hyn eu dogfennu a'u cadw yn yr adran lechyd a Diogelwch. Cânt hefyd eu harchwilio bob wythnos, a dogfennir y broses hon ar yr Archwiliad Clinigol a gwblheir gan y nyrsys cofrestredig.</p> <p>Caiff yr holl gyfarpar calibradu y mae angen ei galibradu ei archwilio bob blwyddyn, neu pryd</p> | <p>lechyd a Diogelwch</p> | <p>Parhaus</p> <p>Bob mis</p> <p>Bob blwyddyn</p> |

| Yr hyn sydd angen ei wella | Safon/ Rheoliad | Camau gweithredu gan y gwasanaeth | Swyddog cyfrifol | Amserlen |
|--|-------------------------------------|--|--|---|
| | | bynnag y bydd angen gwneud hynny, gan Calibrate UK. Disgwylir iddynt ymweld â'r safle ym mis Chwefror 2023. Mae'r gwasanaeth yn cynnal ymarferion rheolaidd ar hap er mwyn rhoi sicrwydd i ni ei fod yn barod i ymateb. | | |
| Rhaid i'r gwasanaeth sicrhau bod pob aelod o'r staff, gan gynnwys staff asiantaeth, sy'n ymgymryd ag arsylwadau o'r bobl ifanc wedi cwblhau ei hyfforddiant arsylwadau therapiwtig. | Gofal diogel a chlinigol effeithiol | <p>Mae gan y gwasanaeth restr wirio cymhwysedd sy'n cynnwys gwybodaeth am risgiau a pha arsylwadau.</p> <p>Mae'r gwasanaeth wrthi'n cadarnhau ar hyn o bryd bod gan bob aelod o'r staff (parhaol ac asiantaeth) un ffeil.</p> <p>Mae gan Elysium bolisi cymhwysedd arsylwi diogel a chefnogol a gaiff ei fabwysiadu yn Hillview.</p> <p>Fel rhan o restr wirio'r rheolwr, bydd y rheolwr yn trafod prosesau arsylwi â'r staff ac yn edrych ar daflenni arsylwi</p> | <p>Arweinydd Clinigol</p> <p>Arweinydd Adnoddau</p> <p>Cyfarwyddwr yr Ysbyty a'r Arweinydd Clinigol Rheolwyr</p> | <p>Parhaus</p> <p>Rhagfyr 2022</p> <p>Chwefror 2022</p> <p>Rhagfyr 2022</p> |
| Rhaid i'r gwasanaeth sicrhau bod pob aelod o'r staff, gan gynnwys staff asiantaeth, yn ymgysylltu â'r bobl ifanc i'w helpu yn y ffordd orau bosibl | Gofal diogel a chlinigol effeithiol | <p>Mae'r ffurflen arsylwi bresennol yn nodi dewisiadau'r claf o ran ymgysylltu.</p> <p>Mae pob aelod parhaol o'r staff yn ymgymryd â hyfforddiant Ymgysylltu â Phobl Ifanc yn ystod eu cyfnod sefydlu.</p> | Arweinydd Clinigol | Parhaus |

| Yr hyn sydd angen ei wella | Safon/ Rheoliad | Camau gweithredu gan y gwasanaeth | Swyddog cyfrifol | Amserlen |
|---|-------------------------------------|---|--|---|
| wrth ymgymryd ag arsylwadau therapiwtig. | | <p>Mae ffurflenni ymgysylltu therapiwtig yn nodi manylion y pynciau y gall y staff ymgysylltu â'r Bobl Ifanc yn eu cylch. Fel rhan o'r broses Ymweliadau Ansawdd, mae'r uwch-aelodau o staff yn atgoffa'r staff am eu cyfrifoldeb i ymgysylltu â'r bobl ifanc er mwyn ceisio newid y diwylliant.</p> <p>Bydd yr adran Therapi Galwedigaethol yn rhoi cymorth i'r staff ar y wardiau mewn perthynas â'r gweithgareddau y gall y staff eu defnyddio i ymgysylltu â'r bobl ifanc.</p> | | |
| Rhaid i'r gwasanaeth roi sicrwydd am y camau y bydd yn eu cymryd i wella ansawdd yr adroddiadau ar ddigwyddiadau. | Gofal diogel a chlinigol effeithiol | <p>Mae'r cyfarfod boreol yn cynnwys crynodeb o bob digwyddiad. Cânt eu hadolygu yn ystod y cyfarfod hwn a'u huwchgyfeirio fel y bo angen. Caiff pob cam gweithredu ei gofnodi a'i olrhain yn ystod y cyfarfod boreol.</p> <p>Caiff manylion digwyddiadau eu hadolygu'n llawn gan Reolwr y Ward a'r Arweinydd Clinigol ar ôl y cyfarfod boreol o ddydd Llun i ddydd Gwener er mwyn sicrhau bod y ffurflenni digwyddiadau yn cael eu cwblhau i safon uchel.</p> <p>Caiff pecyn hyfforddiant sy'n ymdrin â'r manylion a'r ansawdd gofynnol ar ffurflenni digwyddiadau ei</p> | <p>Tîm Amlddisgyblaethol</p> <p>Rheolwr y Ward a'r Arweinydd Clinigol</p> <p>Rheolwr Ansawdd a Chydymffurfio</p> | <p>Wedi'i gwblhau</p> <p>Ionawr 2023</p> <p>Chwefror 2022</p> |

| Yr hyn sydd angen ei wella | Safon/ Rheoliad | Camau gweithredu gan y gwasanaeth | Swyddog cyfrifol | Amserlen |
|---|--|--|--|-------------------------------------|
| | | <p>gyflwyno i bob aelod o'r staff, gan gynnwys staff parhaol a staff asiantaeth. Lle byddwn yn nodi unigolion y mae angen cymorth pellach arnynt mewn perthynas â chwblhau ffurflenni digwyddiadau, caiff yr hyfforddiant hwn ei gwblhau ar sail un i un.</p> <p>Mae cynllun ar waith i ddefnyddio system IRIS Elysium. Bydd y system hon yn galluogi i ffurflenni digwyddiadau gael eu dychwelyd i aelodau o'r staff er mwyn iddynt nodi rhagor o fanylion a bydd yn cynnwys llwybr archwilio o ffurflenni digwyddiadau a ddychwelwyd.</p> <p>Mae'r uwch-weithwyr cymorth yn adolygu'r digwyddiadau a gaiff eu cofnodi ar y wardiau ac yn rhoi cymorth wrth gwblhau'r ffurflenni.</p> | | <p>Chwefror 2022</p> <p>Parhaus</p> |
| <p>Rhaid i'r gwasanaeth roi sicrwydd am ei strategaeth ar gyfer lleihau'r nifer o achosion lle caiff y bobl ifanc eu hatal yn gorfforol yn yr ysbyty yn unol â'r Fframwaith ar gyfer</p> | <p>Gofal diogel a chlinigol effeithiol</p> | <p>Cynhaliwyd archwiliad Elysium o arferion cyfyngol ar 1 Rhagfyr 2022. Yn dilyn yr adolygiad, caiff cynllun gweithredu ei lunio a chaiff pob cam gweithredu ei olrhain yn ystod y cyfarfodydd llywodraethu clinigol misol.</p> <p>Mae arweinydd rhanbarthol Rheoli Trais ac Ymddygiad Ymosodol yn Therapiwtig Elysium yn</p> | <p>Arweinydd Ansawdd a'r Arweinydd Rhanbarthol Rheoli Trais ac Ymddygiad Ymosodol yn Therapiwtig</p> | <p>Rhagfyr 2022</p> |

| Yr hyn sydd angen ei wella | Safon/ Rheoliad | Camau gweithredu gan y gwasanaeth | Swyddog cyfrifol | Amserlen |
|------------------------------------|--------------------|--|---|------------------------|
| Lleihau Arferion Cyfyngol i Gymru. | | <p>adolygu'r pecyn hyfforddiant cysylltiedig yn Hillview ac yn adolygu'r themâu o ffurflenni digwyddiadau. Caiff hyn ei adolygu yn ystod y cyfarfodydd llywodraethu. Caiff y themâu a nodir gan yr arweinydd Rheoli Trais ac Ymddygiad Ymosodol yn Therapiwtig eu cynnwys yn ei ddadansoddiad o anghenion hyfforddiant.</p> | Arweinydd Rhanbarthol Rheoli Trais ac Ymddygiad Ymosodol yn Therapiwtig | Rhagfyr 2022 |
| | | <p>Gwnaethom gwblhau gweithdai byw â'r staff parhaol, staff banc a staff asiantaeth. Cwblhawyd y gweithdai hyn ar ôl gwaith arsylwi ar ddiwyddiadau lle y bu'n rhaid atal unigolion yn gorfforol gan yr arweinydd Rheoli Trais ac Ymddygiad Ymosodol yn Therapiwtig ar y cyd â'r unigolion a oedd yn gysylltiedig â'r digwyddiad.</p> | | Rhagfyr 2022 |
| | | <p>Caiff adroddiadau wythnosol eu datblygu i adolygu nifer yr achosion o atal unigolion yn gorfforol. Byddant yn cynnwys digwyddiadau o ddydd lau i ddydd lau yn barod i'w cyflwyno bob dydd Gwener. Yr unig eithriad i'r dyddiau sydd wedi'u cynnwys yn yr adroddiad yw 07/12/22 gan mai dydd Mercher oedd y diwrnod cyflwyno. Bydd yr adroddiad yn cynnwys y canlynol:</p> | Arweinydd Rhanbarthol Rheoli Trais ac Ymddygiad Ymosodol yn Therapiwtig | Parhaus Parhaus |

| Yr hyn sydd angen ei wella | Safon/ Rheoliad | Camau gweithredu gan y gwasanaeth | Swyddog cyfrifol | Amserlen |
|---|---|---|--|---------------------------------|
| Ilofnodi a dyddio eu casgliadau. | | casgliadau y daethpwyd iddynt. Os caiff y ddogfen ddrafft ar gyfer cofnodi'r uchod ei derbyn yn gyfreithiol, caiff ei rhoi ar waith ym mis Ionawr 2022. | | |
| Rhaid i'r gwasanaeth sicrhau y caiff cytundeb pob person ifanc ag amodau ei absenoldeb Adran 17 ei gofnodi. | Monitro'r Ddeddf Iechyd Meddwl | Mae'r bobl ifanc wedi ymgysylltu â'r Tîm Aml-ddisgyblaethol i gytuno ar bamedrau absenoldeb adran 17 yn ystod rowndiau o'r wardiau a byddant wedyn yn cydlofnodi'r cytundeb er mwyn dechrau'r broses o ddefnyddio eu habsenoldeb adran 17. Caiff pob claf ei annog i lofnodi ei gytundeb absenoldeb adran 17 ac os bydd y risgiau yn galluogi hynny, rhoddir copi iddo | Clinigydd Cyfrifol Arweinydd Clinigol | Hydref 2022 Rhagfyr 2023 |
| Rhaid i'r gwasanaeth sicrhau bod y staff yn ymwybodol o'r gweithdrefnau ar gyfer uwchgyfeirio yn unol â chanllawiau'r Sgoriau Rhybudd Cynnar Cenedlaethol, a'u bod yn dilyn y gweithdrefnau hynny. | Monitro Mesur Iechyd Meddwl (Cymru) 2010: Cynllunio a darparu gofal | Canllawiau cenedlaethol yw'r canllawiau ac maent ar gael ar y ward - caiff posteri eu harddangos ac mae ffolder i'r bobl ifanc ar y ward lle gellir cofnodi eu harsylwadau ar siartiau Sgoriau Rhybudd Cynnar Cenedlaethol. Caiff yr arsylwadau eu cofnodi ar Careblox ac yn ystod cyfarfod trosglwyddo'r nyrsys er mwyn sicrhau bod y staff nyrsio sy'n dechrau eu shifft yn ymwybodol o unrhyw broblemau iechyd corfforol, pa waith | Arweinydd Clinigol | Rhagfyr 2022 |

| Yr hyn sydd angen ei wella | Safon/ Rheoliad | Camau gweithredu gan y gwasanaeth | Swyddog cyfrifol | Amserlen |
|--|---|--|---|---|
| | | monitro y bu angen ei wneud a chaiff beth sydd ei angen o hyd ei drafod yn ystod y cyfarfod boreol | | |
| Rhaid i'r gwasanaeth sicrhau y caiff yr holl gynlluniau gofal a thriniaeth y nodir bod eu hangen ar gyfer y bobl ifanc pan gânt eu derbyn eu llunio wedi hynny. | Monitro Mesur Iechyd Meddwl (Cymru) 2010: Cynllunio a darparu gofal | Mae rhestr wirio cyn-derbyn ac adeg derbyn ar waith ar hyn o bryd. Mae hyn yn helpu'r Tîm Amlddisgyblaethol i nodi'r cynlluniau gofal a thriniaeth gofynnol. Mae proses dderbyn 72 awr ar waith cyn derbyn. Bydd y gwasanaeth yn gweithio'n unol â chynllun gofal y Tîm Amlddisgyblaethol. | Arweinydd Clinigol Tîm Amlddisgyblaethol | Wedi'i gwblhau ac yn barhaus Mawrth 2023 |
| Rhaid i'r gwasanaeth adolygu'r cynlluniau gofal a thriniaeth presennol sydd ar waith ar gyfer pob person ifanc ac asesu a oes unrhyw gynlluniau gofal a thriniaeth coll y mae angen eu llunio. | Monitro Mesur Iechyd Meddwl (Cymru) 2010: Cynllunio a darparu gofal | Caiff adolygiad safle o'r cynlluniau gofal ei gynnal yn ystod mis Rhagfyr. Mae tîm PCA Elysium yn adolygu'r cynlluniau gofal a thriniaeth ym mis Rhagfyr a chaiff cynllun gweithredu ei lunio ar ôl yr ymweliad hwnnw a chaiff camau gweithredu eu holrhain yn ystod y cyfarfod llywodraethu clinigol Caiff hyfforddiant cynlluniau gofal ei hwyluso er mwyn helpu'r tîm. | Tîm PCA a'r Tîm Amlddisgyblaethol a'r Arweinydd Clinigol Arweinydd Ansawdd | Rhagfyr 2022 Mawrth 2023 |

| Yr hyn sydd angen ei wella | Safon/ Rheoliad | Camau gweithredu gan y gwasanaeth | Swyddog cyfrifol | Amserlen |
|---|--|--|--|---------------------------------|
| Dylai'r gwasanaeth adolygu ymatebion aelodau o'r teuluoedd a gofalwyr i'r holiaduron drwy gydol yr adroddiad hwn a rhoi diweddariad ar gynlluniau i ymdrin â'r materion a godwyd. | Fframwaith llywodraethu ac atebolrwydd | Caiff ymatebion aelodau o'r teuluoedd a gofalwyr eu hadolygu yn ystod y fforwm i deuluoedd ym mis Rhagfyr. Caiff y cynllun gweithredu/adroddiad ac ymatebion y staff eu hadolygu yn ystod cyfarfodydd staff, cyfarfodydd wardiau lleol a chaiff camau llywodraethu clinigol eu llunio o'r ymatebion a'r syniadau. | Tîm Amlddisgyblaethol Cyfarwyddwr yr Ysbyty | Rhagfyr 2022 Ionawr 2023 |

Rhaid i'r adran ganlynol gael ei chwblhau gan gynrychiolydd y gwasanaeth sydd â'r cyfrifoldeb ac atebolrwydd cyffredinol dros sicrhau bod y cynllun gwella yn cael ei roi ar waith.

Cynrychiolydd y gwasanaeth

Enw (priflythrennau): Pippa Philipson

Swydd: Cyfarwyddwr Gwasanaethau Rhanbarthol

Dyddiad: 07 Rhagfyr 2022